
Boomerang+
Adroddiad Blynyddol
2008

‘Mae’n hadnoddau a’n talent mewnol yn ein galluogi i weithredu ar draws holl sbectrwm gweithgarwch y diwydiant creadigol’

Pwy Ydym ni 01
Adroddiad y Cadeirydd 06
Adolygiad Busnes 09
Adroddiad y Cyfarwyddwyr 16
Datganiad Cyfunol Ynghylch Cyfrifoldebau’r Cyfarwyddwyr 21
Adroddiad Cyfunol yr Archwilwyr Annibynnol 22
Datganiad Incwm Cyfunol 24
Datganiad Newidiadau o Ran Ecwiti 25
Mantolenni 26
Datganiad Llif Arian Cyfunol 28
Nodiadau ar Gyfer y Datganiadau Ariannol Cyfunol 29
Advisers 67

PWY YDYM NI

Mae Boomerang Plus Ccc (“Boomerang+”) yn un o’r cwmnïau cyfryngau annibynnol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, nad yw wedi’i leoli yn Llundain.

Rydym yn cynhyrchu rhaglenni adloniant, rhaglenni ffeithiol, rhaglenni chwaraeon, rhaglenni cerddoriaeth, dramâu a rhaglenni plant ar gyfer y gwasanaeth teledu, y gwasanaeth radio a’r we. Mae’n hadnoddau a’n talent mewnol yn ein galluogi i weithredu ar draws holl sbectrwm gweithgarwch y diwydiant creadigol gan gynnwys:

- Cynhyrchu cynnwys;
- Gwasanaethau ôl-gynhyrchu;
- Cyfleusterau teledu; a
- Rheoli talent.

Mae gennym dîm rheoli cadarn, sydd wedi dwyn ynghyd arbenigedd creadigol ac arbenigedd busnes amrywiaeth eang o dalent o’r byd cyfryngau, ac mae hyn wedi arwain at ein sefyllfa bresennol.

STRATEGAETH

Mae’n nodau fel a ganlyn:

- Cynhyrchu cynnwys apelgar ac o ansawdd uchel;
- Bod yn gyflenwr y mae darlledwyr Rhwydwaith yn dymuno manteisio ar ei wasanaethau er mwyn llenwi eu cwotâu o’r “Cenhedloedd a’r Rhanbarthau”;
- Datblygu i fod yn gynhyrchwr blaenllaw cynnwys brand, yn enwedig Freesports; a
- Datblygu i fod yn ddarparwr blaenllaw gwasanaethau a chynnwys cyfryngau digidol.

UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL

- Sicrhau cynnydd o 100 y cant mewn refeniw, i £20.93m (2007: £10.46m).
- Sicrhau cynnydd o 144 y cant mewn elw gweithredol addasedig*, i £2.20m (2007: £0.90m).
- Sicrhau cynnydd o 144 y cant mewn elw addasedig cyn treth*, i £2.10m (2007: £0.86m).
- Sicrhau cynnydd o 91 y cant mewn elw cyn treth, i £1.30m (2007: £0.68m).
- Sicrhau cynnydd mewn arian a chyfwerthoedd arian, i £6.33m (2007 - £3.94m).

UCHAFBWYNTIAU GWEITHREDOL

Mynediad llwyddiannus i AIM ym mis Tachwedd 2007 yn dilyn gosodiad o £3 miliwn (£2.21 miliwn llai treuliau).

Penderfynodd Channel 4 ac S4C ailgomisiynu gwaith sylweddol, yn enwedig ym maes drama, chwaraeon eithafol a ffordd o fyw.

Ym mis Hydref 2007, cychwynnwyd ar y gwaith cynhyrchu ar gyfer “Planed Plant”, sef y dolenni cyswllt ar gyfer rhaglenni plant S4C, sy’n werth dros £4 miliwn dros gyfnod o ddwy flynedd. Llwyddwyd i ennill y contract mewn proses dendro agored, lle’r oedd y gystadleuaeth yn gref.

Buddsoddiad parhaus mewn staff, cyfleusterau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, cyfleoedd ym maes y cyfryngau digidol a datblygu rhaglenni.

RHAGOLYGON

- Sylw amlwg i’r gwaith a gomisiynwyd ar gyfer y dyfodol;
- Amgylchedd rheoleiddio ffafriol;
- Mantolen gref er mwyn ariannu twf; ac
- Mae’r gweithgarwch masnachu cyfredol yn cyd-fynd â disgwyliadau’r cyfarwyddwyr.

* wedi’i addasu ar gyfer treuliau gweinyddol eithriadol (2008: £0.74m, 2007: £dim), darpariaethau amhariad (2008: £dim, 2007: £0.10m), amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes (2008: £0.04m, 2007: £0.06m) a thaliadau wedi’u seilio ar gyfrannau (2008: £0.02m, 2007: £0.02m).

Phil Boorman

EIN BUSNESAU

Mae'r grŵp yn cynhyrchu cynnwys mewn genres niferus ar gyfer y gwasanaeth teledu, y gwasanaeth radio a'r we, ynghyd â chyfleusterau gwasanaethau cymorth ac ôl-gynhyrchu helaeth, a busnes rheoli talent sy'n tyfu.

CYNHYRCHU RHAGLENNI TELEDU	CYFLEUSTERAU	RHEOLI TALENT
BOOMERANG Drama Digwyddiadau Ieuenctid Chwaraeon Plant Cerddoriaeth **FFLIC** Ffordd o fyw a Phlant **ALFRESCO** Adloniant, Comedi, Ffeithiol Adloniant a Cherddoriaeth Glasurol **APOLLO** Drama, Plant a Dogfennol	**MWNCI** Gwasanaethau golygu ôl-gynhyrchu allanol a mewnol **BOOM POST** Gwasanaethau sain a golygu ôl-gynhyrchu mewnol **ZOOM** Llogi camerâu a gwasanaethau	**BOOM TALENT** Cwmni rheoli personol sy'n cynrychioli actorion a chyflwynwyr ym maes ffilmiau, teledu, theatr, radio, gwaith corfforaethol a throsleisio



BOOMERANG ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2008

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno canlyniadau'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008.

Dyma ganlyniadau cyntaf Boomerang ers ei fynediad i AIM ym mis Tachwedd 2007, ac maent yn cynrychioli'r flwyddyn fasnachu gyntaf ar gyfer y grŵp mwy, ar ôl caffael Mwnci ac Apollo yn 2007. Mae'r Grŵp wedi sicrhau twf sylweddol yn ystod y flwyddyn, mewn ffordd organig ac o ganlyniad i'r gweithgarwch caffael.

Mae'r tŵf organig a'r caffaeliadau a wnaethpwyd hyd yn hyn wedi creu grŵp tra amrywiol, ac y mae ymhlith y cwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn y DU, gan gynhyrchu rhaglenni ar draws amrywiaeth eang o genres gan gynnwys adloniant, drama, ffordd o fyw, plant, chwaraeon a ffeithiol.

Mae'n buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu yn sicrhau ein bod yn meddu ar y dechnoleg a'r seilwaith ddiweddaraf er mwyn cynorthwyo twf cyflym y Grŵp, ac mae hyn yn ein galluogi i sicrhau gwerth am arian go iawn i'n cwsmeriaid. Yn ogystal, mae synergeddau gweithredol o fewn y Grŵp yn sicrhau buddion creadigol ac ariannol i'n cwsmeriaid, a chyfleoedd i'n staff ddatblygu eu gyrfaoedd.

Fel busnes creadigol, mae'n staff yn allweddol i'n llwyddiant a byddwn yn parhau i wneud buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant ar eu cyfer ac yn eu datblygiad. Credwn y bydd y buddsoddiad parhaus hwn yn gwella ein sgiliau, ac y bydd yn fodd i sicrhau llwyddiant y Grŵp yn y tymor hir.

Rydym yn grŵp annibynnol a chadarn, ac yn cael ein harwain mewn ffordd greadigol. Mae gennym staff a rheolwyr uchelgeisiol a phrofiadol ac rydym mewn sefyllfa wych i fanteisio ar y cyfleoedd sylweddol sy'n codi ym marchnad y cyfryngau, y mae'n farchnad sy'n newid. O'r herwydd, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn marchnadoedd newydd, megis rheoli talent a chyfleoedd yn y cyfryngau digidol, er mwyn datblygu i fod yn fusnes cyfryngau mwy amrywiol, ac sy'n gallu cynnig gwasanaethau ehangach. Yn ogystal, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd caffael, yn enwedig yn y marchnadoedd cynnwys brand ehangach a freesports tameidiog, ond dim ond os byddwn yn ffyddiog y gallant ychwanegu gwerth i'r Grŵp.

Rydym yn sylweddoli, fodd bynnag, ein bod yn gweithredu mewn marchnadoedd dynamig a chystadleuol, a fydd yn parhau i wynebu newidiadau a gweithgarwch cyfuno dros y blynyddoedd i ddod. Felly, byddwn yn monitro perfformiad ein busnesau yn rheolaidd, yn ogystal â'u sefyllfaoedd cystadleuol, gyda'r nod o sicrhau'r gwerth uchaf i'r cyfranddalwyr.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n Prif Weithredwr, Huw Eurig Davies, a'n holl staff am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn.

Roger Moore
Cadeirydd
21 Hydref 2008

Euron Jones



ADOLYGIAD BUSNES

ADOLYGIAD ARIANNOL – DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Ar ôl caffael Mwnci ac Apollo y llynedd, a'r buddsoddiad parhaus mewn datblygu, bu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008 yn gyfnod o dwf sylweddol, gyda'r trosiant yn cynyddu gymaint â 100% i £20.93m (2007: £10.46m) a'r elw gweithredol addasedig* yn cynyddu gymaint â 144% i £2.20m (2007: £0.90m).

Un o ddangosyddion perfformiad allweddol y grŵp yw elw gros, a gynyddodd gymaint â £1.78m i £3.90m, cynnydd o 84% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn unol â disgwyliadau'r rheolwyr, roedd y meintiau elw gros ar gyfer y flwyddyn yn 18.6% (2007: 20.2%), ac roedd hyn o ganlyniad i dwf organig y grŵp at ei gilydd, sy'n deillio yn bennaf o raglenni drama y mae eu meintiau yn is.

Roedd eitemau eithriadol yn cynnwys costau o £0.64m a oedd yn ymwneud â'r gweithgarwch rhestru ar AIM ym mis Tachwedd 2007, a chostau o £0.10m a oedd yn ymwneud â chyfuniad aflwyddiannus.

Roedd yr elw addasedig cyn treth* yn £2.10m o'i gymharu â £0.86m ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 144%. Yr elw cyn treth a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £1.30m (2007: £0.68m).

Roedd gan y grŵp £6.33m mewn arian net ar 31 Mai 2008 (2007: £3.94m), a oedd yn adlewyrchu enillion o £2.21m yn dilyn IPO, llai treuliau. Yn ogystal, talwyd taliadau cydnabyddiaeth ohiriedig o £0.84m a oedd yn ymwneud â chaffaeliadau yn ystod cyfnodau blaenorol, ac ad-daliadau dyledion o £0.68m. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008, roedd gwariant cyfalaf y Grŵp yn £0.9m, a wariwyd ar stiwdios a swyddfeydd newydd yn bennaf er mwyn ymateb i'r tendr a enillwyd gan S4C i gynhyrchu "Planed Plant", y dolenni cyswllt dyddiol i blant.

Ar 31 Mai 2008, roedd gan y grŵp asedau net o £7.75m (2007 - £4.06m), gan adlewyrchu'r elw argadwedig ar gyfer y flwyddyn a'r cyfrannau newydd a ddosbarthwyd yn sgil IPO.

RHAGLENNI

Mae holl fusnesau'r grŵp y maent yn cynhyrchu cynnwys, Boomerang, Fflic, Alfresco ac Apollo, wedi cyfrannu at bortffolio aml-genre cadarn o raglenni ar gyfer ein cwsmeriaid darlledu yn ystod y flwyddyn. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

CHWARAEON A CHYNNWYS BRAND

Gwelwyd adran Chwaraeon Boomerang yn cynhyrchu chweched cyfres o "Freesports on 4" ar gyfer Channel 4, sef y gyfres a anrhydeddwyd gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol, ac ar hyn o bryd, mae'n cynhyrchu seithfed cyfres. Mae gennym berthynas hir a llawn ymddiriedaeth gyda brandiau amlwg megis Red Bull, Quicksilver, Billabong, Xbox a Sony. Yn ogystal, mae'r adran yn cynhyrchu cyfres am chwaraeon eithafol ar gyfer S4C o'r enw "Chwa".

Yn 2008, llwyddwyd i ennill comisiynau newydd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon eithafol a noddir gan frandiau, gan gynnwys "Nissan Quasqai Challenge" a "Sony Eriksson B-boy Championships". Enillwyd y ddau gomisiwn hwn trwy gyfrwng proses dendro gystadleuol ac maent yn ymwneud â digwyddiadau a gynhelir ar draws y byd.

Darparwyd ail gyfres o "Rasus ar Garlam" ar gyfer S4C, sef y gyfres sy'n dilyn hynt a helynt y tymor rasio pwynt i bwynt yng Nghymru.

Warren Orchard

ADOLYGIAD BUSNES

DRAMA

Yn ystod y cyfnod dan sylw, ffilmiwyd cyfres gyntaf "Teulu", drama 10-rhan 60-munud wedi'i lleoli mewn meddygfa yn Aberaeron, a "Dau dŷ a Ni", drama 13-rhan 30-munud ar gyfer plant yn eu harddegau, wedi'i lleoli mewn cartref maeth yn y cymoedd, ar gyfer S4C, ac ailgomisiynwyd y ddau. Bu Apollo yn cynhyrchu ffilm 90-munud ar gyfer S4C o'r enw "Martha, Jac a Sianco" ac yn ddiweddar, mae wedi cynhyrchu trydedd cyfres ei ddrama "Con Passionate", sy'n dilyn hynt a helynt côr meibion yng Nghymru, ac a enillodd wobr Rose d'Or.

COMEDI, ADLONIANT A CHERDDORIAETH

Yn ystod y flwyddyn, bu Alfresco yn cynhyrchu "Sioe PC Leslie Wynne", "Sioe Eleri Sion" ac ail gyfres "Codi Canu", cyfres a fu'n dilyn nifer o gorau cefnogwyr Rygbi, ar gyfer S4C, ac yn ddiweddar, mae wedi cynhyrchu cyfres 10-rhan sioe gwis "0 ond 1" ar gyfer S4C.

Ar gyfer E4, bu Boomerang yn cynhyrchu "Mayhem Makers" a oedd yn rhan o'i strand comedi "Funny Cuts", a oedd yn cynnig y cyfle i dalentau newydd ymddangos ar y sgrîn ac i gyfarwyddwyr newydd weithio ar raglenni.

Ar hyn o bryd, mae Boomerang yn cynhyrchu cyfres arall o'i sioe gerddoriaeth i bobl ifanc a ddarlledir gyda'r hwyr, "Bandit", a'r gyfres ddeilliedig newydd, "Nodyn".

FFORDD O FYW

Ar hyn o bryd, mae Fflic yn cynhyrchu tymor arall o'i raglenni ffordd o fyw safonol ar gyfer S4C. "04 Wal", sy'n bwrw golwg ar bensaernïaeth a dylunio hanesyddol a chyfoes; "Tŷ Cymreig", sy'n ymchwilio i weithgarwch adeiladu tai hanesyddol a brodorol; a "Cwpwrdd Dillad", sy'n bwrw golwg ar fywyd unigolyn trwy edrych ar gynnwys eu wardrob.



BAIT

Mae Alfresco wedi cynhyrchu cyfres arall o "Stories from the Street" ar gyfer ITV Wales, sy'n ystyried adeiladau cymunedol a chyhoeddus. Mae Alfresco wedi cynhyrchu "Secrets of my Success" ar gyfer ITV Wales hefyd, sy'n bwrw golwg ar fywydau a thai unigolion enwog a chyfoethog.

PLANT

Ar 29 Hydref 2007, cychwynnodd Boomerang ar y gwaith cynhyrchu dan gontract dwy flynedd gydag S4C, sy'n werth £4m, er mwyn cynhyrchu dolenni cyswllt "Planed Plant". Llwyddwyd i ennill y contract hwn mewn proses dendro agored, yn erbyn cystadleuaeth gref.

Mae comisiwn "Planed Plant" wedi cryfhau enw da y Grŵp ymhellach, yn enwedig trwy gyfrwng Fflic ac Apollo, ym maes rhaglenni plant. Mae'r cyfresi sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd yn cynnwys "Stwffio", "Hip Neu Sgip?", "Dawnstastig", "Garej" ac "ABC". Yn Arolwg Darlledu 2008, amlygwyd y Grŵp fel un o'r cynhyrchwyr mwyaf yn y sector rhaglenni plant yn y DU.

DIGWYDDIADAU

Ym mis Gorffennaf 2007, bu Boomerang yn cynhyrchu'r darllediadau byw o "Sioe Frenhinol Cymru" am yr ail flwyddyn yn olynol dan gontract pedair blynedd gydag S4C, a oedd yn cynnwys gwerth dros 60 awr o ddarlledu byw ar y teledu, ffrydio byw ar y we a deunydd rhyngweithiol. Ym mis Mai 2008, bu cwmni cyd-fenter y Grŵp, Hanner: Hanner, yn cynhyrchu'r darllediadau byw o "Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd" am y drydedd flwyddyn mewn contract pedair blynedd.

Warren Orchard

ADOLYGIAD BUSNES

ÔL-GYNHYRCHU

Trwy gaffael Mwnci y llynedd, cwmni gwasanaethau golygu o Gaerdydd, gwelwyd gallu adran ôl-gynhyrchu Boomerang yn dyblu bron. Yn ogystal, ychwanegwyd ail swît ddybio safonol at ein hadnoddau eleni. Mae'r cyfleusterau hyn sy'n manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf, yn golygu bod modd rhoi gorffeniad o ansawdd i nifer o'r cynyrchiadau ar draws y Grŵp ac ar gyfer cleientiaid allanol. Mae buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau ôl-gynhyrchu wedi ein galluogi i gyflymu'r broses o hyfforddi staff technegol newydd, gan wella ansawdd ein rhaglenni a chynnig gwerth am arian go iawn i'n cleientiaid.

RADIO

Mae'r Grŵp yn parhau i gyflenwi ystod amrywiol o raglenni radio ar gyfer BBC Radio Wales a Radio Cymru, ynghyd â chynnwys ar gyfer Radio 2 a 4.

RHEOLI TALENT

Sefydlwyd Boom Talent ym mis Mawrth 2007 ac mae hwn yn gwmni rheoli sy'n cynrychioli actorion a chyflwynwyr ym maes ffilm, teledu, theatr, radio, gwaith corfforaethol a throsleisio. Mae Boom Talent yn parhau i ymsefydlu, gan ehangu ei broffil a nifer ei gleientiaid.

CYFRYNGAU DIGIDOL

Gyda'n partner cyfryngau digidol, Cube Interactive, rydym yn parhau i archwilio a datblygu cyfleoedd ym maes y cyfryngau digidol, gan gynnwys gwefannau, gwe-ffrydio a chyfryngau rhyngweithiol. Mae'r contractau rhyngweithiol sylweddol yn cynnwys darparu cynnwys sy'n ymwneud â'r Sioe Frenhinol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Planed Plant.

Yn ogystal, yn ystod y cyfnod dan sylw, aethom ati i lansio cam cyntaf ein gwefan freesports "fso4.com", sy'n gysylltiedig â'n cyfres chwaraeon eithafol "Freesports on 4" ar gyfer Channel 4.

AMGYLCHEDD RHEOLEIDDIO

Ar 25 Medi 2008, cyhoeddodd Ofcom, Rheolydd y Diwydiant, gam 2 ei ail adolygiad o'r sector darlledu cyhoeddus. Am y tro cyntaf, mae hwn yn cynnig cwota penodol (3%) o'r tu allan i Loegr o 2010 ar gyfer Channel 4, ynghyd â chynnydd i'r cwota y tu allan i Lundain o 30% i 35%. Yn ogystal, mae Ofcom yn "croesawu targed y BBC i gynnig gwerth 50% o'r gwaith cynhyrchu i gwmnïau y tu allan i Lundain, gydag 17% yn dod o'r cenhedloedd...". Ynghyd ag adolygiad cadarnhaol iawn gan Ofcom o S4C, mae hyn yn cryfhau ein barn bod y ffaith ein bod wedi ein lleoli yn y Cenhedloedd, ac yng Nghymru yn arbennig, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r Grŵp.

BOOMERANG ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2008

ADOLYGIAD BUSNES

POLISI DIFIDEND

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell y dylid talu difidend ar gyfer y flwyddyn. Bydd dosbarthu unrhyw ddifidendau yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniadau'r Grŵp, ei sefyllfa ariannol, y gofynion o ran arian, y rhagolygon ar gyfer y dyfodol a ffactorau eraill a fernir yn rhai perthnasol ar yr adeg honno. Maes o law, mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu mabwysiadu polisi difidend cynyddol.

RHAGOLYGON

Mae'n sefyllfa fel cwmni cynhyrchu teledu annibynnol aml-genre sydd wedi'i leoli yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y farchnad yr ydym yn gweithredu ynddi, ac sy'n cael ei rheoleiddio.

Yn hanesyddol, caiff cyfran uchel o raglenni'r Grŵp eu hailgomisiynu gan y darlledwyr ac mae'r duedd hon yn parhau, gan ddwyn sylw amlwg i'r Grŵp mewn ffordd nas gwelir yn aml mewn rhannau eraill o'r diwydiant. Mae gennym drosolwg da o'n refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ni ddisgwylir i'r gymysgedd o ran genres ein rhaglenni, a'n meintiau sylfaenol, newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r gwaith o integreiddio ein busnesau yn mynd yn ei flaen yn dda, ac mae'n timau talentog o bobl yn datblygu nifer o syniadau newydd ar gyfer ein cleientiaid, sy'n ein helpu i dyfu ein busnes mewn ffordd organig.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd caffael, sy'n ychwanegu gwerth i'r cyfranddalwyr ac sy'n amrywio'r hyn y gall y Grŵp ei gynnig, yn ogystal â'i gwsmeriaid.

Huw Eurig Davies
Prif Swyddog Gweithredol
21 Hydref 2008

Mark Fenwick
Cyfarwyddwr Cyllid
21 Hydref 2008

ADDRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r cyfarwyddwr yn cyflwyno'u hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol archwiliedig y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008.

ADOLYGIAD BUSNES A'R PRIF WEITHGARWCH

Prif weithgarwch y grŵp yw cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Yn ogystal, mae'r cwmni wedi buddsoddi mewn nifer o is-gwmnïau yn y DU. At ei gilydd, mae Boomerang Plus Ccc a'i is-gwmnïau yn creu'r grŵp, fel y'i cynrychiolir gan y datganiadau ariannol cyfunol hyn.

Enw blaenorol Boomerang Plus Ccc oedd Cynyrchiadau Boomerang Cyfyngedig, ond newidiodd ei enw cyn iddo gael ei sefydlu ar AIM ym mis Tachwedd 2007.

ADOLYGIAD BUSNES A DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Cynhwysir adolygiad manwl o weithredoedd y grŵp a'i ddangosyddion perfformiad allweddol yn Natganiad y Cadeirydd a'r Adolygiad Busnes ar dudalennau 3 i 6, sy'n cynnwys adolygiad o ddangosyddion perfformiad allweddol y grŵp.

Ni welwyd unrhyw newidiadau arwyddocaol ym mhrif weithgareddau'r grŵp yn ystod y flwyddyn dan sylw. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau tebygol i weithgareddau'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y cwmni yn chwilio am gyfleoedd i gaffael cwmnïau cyfryngau cyflenwol a chwmnïau cynhyrchu teledu tebyg, a fydd yn cyfrannu at dwf y grŵp, ynghyd â'r cynhyrchion y gall y grŵp eu cynnig i ddarlledwyr a chleientiaid eraill. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod buddsoddiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y busnes yn tymor canolig a'r tymor hir.

Mae nodyn 23 y datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth am ffordd y mae'r cwmni a'i is-gwmnïau yn defnyddio offerynnau ariannol.

RISGIAU AC ANSICRWYDD

Ceir sawl risg ac ansicrwydd posibl, a allai gael effaith bwysig ar berfformiad y cwmni yn y tymor hir.

RISGIAU SY'N YMWNEUD Â CHYSTADLEUWYR

Mae'r grŵp yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, sy'n cynnwys oddeutu 800 o gystadleuwyr yn y DU. Mae buddsoddiad y grŵp mewn staff creadigol a gweithgarwch datblygu rhaglenni yn lleihau'r risg a achosir gan gystadleuwyr.

RISGIAU SY'N YMWNEUD Â CHYSTADLEUWYR

Mae'r pedwar prif ddarlledwr daearol (BBC, ITV, Channel 4 a Five), ynghyd â darparwyr aml-sianel digidol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ieithoedd brodorol megis S4C yng Nghymru, yn flaenllaw iawn yn y sector teledu. O'r herwydd, mae cronfa'r cwsmeriaid yn gyfyngedig, felly mae'r proffil risg ar gyfer y sector cyfan yn fwy. S4C yw cwsmer mwyaf y grŵp. Mae hyn yn dwysáu'r risg mewn perthynas â'r cwsmer, ac mae hyn yn sefyllfa gyffredin yn y diwydiant. Rheolir y risg wrth i'r grŵp gyflenwi rhaglenni ar draws ystod eang o genres, yn wahanol i nifer o gystadleuwyr sy'n cynhyrchu rhaglenni mewn un genre neu mewn nifer cyfyngedig o genres yn unig.

Mae refeniw is gan hysbysebu yn debygol o arwain at gyllidebau rhaglenni is i rai darlledwyr penodol, ond nid yw hyn yn debygol o effeithio ar y BBC ac S4C gan eu bod yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus. Yn ogystal, fel y soniwyd yn yr Adolygiad Busnes, mae cwotâu "y tu allan i Lundain" a'r "tu allan i Loegr" yn cynyddu, ac mae incwm nad yw'n dod gan ddarlledwyr, megis rhaglenni a noddir gan hysbysebwyr, yn cynyddu, a bydd hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r grŵp.

RISGIAU SY'N YMWNEUD Â'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn, ad-dalwyd dyled y grŵp a oedd yn ymwneud â stoc benthyca, cyfrannau ffafredig a benthyciad pensiwn.

Mae gan y grŵp gyfleuster gorddrafft, a ddefnyddir o bryd i'w gilydd, ond fel arfer, mae mewn sefyllfa net o ran arian. Mae'r llog a enillir ar adneuon arian yn amrywio o bryd i'w gilydd yn unol â chyfraddau sylfaenol y banciau.

Mae'r holl weithgarwch gwerthu mewn punnoedd sterling, felly nid yw'r grŵp yn wynebu risg a achosir gan gyfraddau cyfnewid.

DIFIDENDAU

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell y dylid talu difidend (2007 - £dim).

STRWYTHUR CYFALAF

Mae nodyn 24 yn cynnwys manylion y cyfalaf cyfrannau a awdurdodwyd ac a ddosbarthwyd, ynghyd â'r symudiadau yn y cyfalaf cyfrannau a ddosbarthwyd gan y cwmni yn ystod y flwyddyn. Mae gan y cwmni un dosbarth o gyfrannau cyffredin, nad yw'n cynnwys hawl i incwm sefydlog. Mae gan bob cyfran yr hawl i fanteisio ar un bleidlais yng nghyfarfodydd cyffredinol y cwmni.

Ni cheir cyfyngiadau penodol ynghylch maint daliad neu ynghylch trosglwyddo cyfrannau, ac mae'r ddau weithgarwch hwn yn cael eu llywodraethu gan ddarpariaethau'r Erthyglau Cymdeithasiad a'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym. Nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw gytundebau rhwng deiliaid cyfrannau'r cwmni a allai arwain at gyfyngiadau ynghylch trosglwyddo gwarannau neu ynghylch hawliau pleidleisio.

Nodir manylion cynlluniau cyfrannau cyflogeion yn nodyn 25.

Nid oes gan unrhyw unigolion unrhyw hawliau rheoli arbennig dros gyfalaf cyfrannau y cwmni, a thelir yn llawn am yr holl gyfrannau a ddosbarthir.

O ran penodi a disodli cyfarwyddwyr, caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasiad, y Cod Cyfunol, y Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae modd diwygio'r Erthyglau trwy gyfrwng penderfyniad arbennig a wneir gan y cyfranddalwyr. Disgrifir pwerau'r cyfarwyddwyr ym Mhrif Gylch Gorchwyl y Bwrdd, y mae copïau ohono ar gael yn ôl y gofyn, a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 11.

Dan ei Erthyglau Cymdeithasiad, mae gan y cwmni yr awdurdod i ddosbarthu cyfrannau cyffredin hyd at werth nominal cyfanred sy'n cyfateb â phump y cant o'r cyfalaf cyfrannau cyffredin nominal cyfanred fel a ddosbarthwyd yn syth ar ôl ei fynediad.

POLISI TALU CYFLENWYR

Mae'n bolisi gan y grŵp i setlo ar amodau talu gyda chyflenwyr wrth gytuno ar yr amodau masnachu. Roedd credydwyr masnachol y grŵp ar 31 Mai 2008 yn cyfateb â phryniannau 13 diwrnod (2007 – 11 diwrnod), wedi'i seilio ar y swm dyddiol cyfartalog a anfonebwyd gan gyflenwyr yn ystod y flwyddyn.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

CYFARWYDDWYR A'U BUDDIANNAU

Isod, nodir cyfarwyddwyr presennol y cwmni, a fu'n gwasanaethu trwy gydol y flwyddyn ariannol, oni bai y nodir fel arall.

Roedd buddiannau llesiannol y cyfarwyddwyr yng nghyfalaf cyfrannau y cwmni ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel a ganlyn:

	31 Mai 2008 dewisiadau cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2007 dewisiadau cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2008 cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2007 cyfrannau cyffredin 1c Nifer
H E Davies	-	-	2,334,484	2,334,484
G S Rees	-	-	918,000	918,000
M W Fenwick	86,566	13,725	357,000	357,000
R B Moore	-	33,000	13,111	-
L James	-	-	-	-

Ar 1 Hydref 2007, ymddiswyddodd G R Davies, D T F Richards, G Griffith, W R Protheroe a D P Jones fel cyfarwyddwyr.

Nid oedd y cyfarwyddwyr yn meddu ar unrhyw gyfrannau mewn unrhyw gwmni grŵp arall ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol.

CYFRANDDALWYR SYLWEDDOL

Ar 26 Medi 2008, mae hysbysiadau ynghylch buddiannau llesiannol mewn 3% neu fwy o'r cyfalaf cyfrannau a ddosbarthwyd gan y cwmni, fel a ganlyn:

	Cyfrannau Cyffredin Nifer	%
H E Davies	2,334,484	26.23
G S Rees	918,000	10.31
G R Davies	918,000	10.31
Gartmore Investment Limited	696,203	7.82
M D Barnard & Co Limited	657,494	7.39
Rathbone	554,670	6.23
Finance Wales Investments Limited	479,868	5.39
D T F Richards	408,000	4.58
H T Jenkins	384,851	4.32
M W Fenwick	357,000	4.01
W R Protheroe	304,660	3.42
E H Protheroe	304,659	3.42

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Nid yw'n ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â'r Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, felly nid yw'n adrodd ynghylch sut y mae wedi gweithredu'r egwyddorion ynddo, neu'r graddau y mae wedi cydymffurfio â'r darpariaethau ynddo trwy gydol y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae cyfarwyddwyr y cwmni wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion sylfaenol y Cod Cyfunol, gan roi sylw i faint y cwmni, y rhoddir eglurhad o hyn isod.

Mae gan y cwmni ddau gyfarwyddwr anweithredol, annibynnol sef R B Moore ac L James, ac mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cymeradwyo strategaethau, cyfrifon, cyllidebau a chaffaeliadau ymhlith materion eraill.

Sefydlwyd pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth ac Enwebu, sy'n cynnwys y ddau gyfarwyddwr anweithredol. Mae R B Moore yn cadeirio'r pwyllgor Archwilio a'r pwyllgor Enwebu, ac mae L James yn cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys monitro uniondeb y cwmni a datganiadau ariannol y grŵp, adolygu annibyniaeth, gwrthrychedd ac effeithiolrwydd yr archwilwyr ariannol, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch penodi, ailbenodi a gwaredu'r archwiliwr allanol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am adolygu perfformiad y cyfarwyddwyr gweithredol, a phennu graddfa a strwythur eu cydnabyddiaeth, gan gynnwys trefniadau bonws.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydymffurfio ac yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheol 21 Rheolau AIM ar gyfer Cwmnïau, sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cyfarwyddwyr a chyflogeion perthnasol eraill yn delio â gwarannau'r cwmni ac i'r perwyl hwn, mae'r cwmni wedi mabwysiadu cod priodol ynghylch delio â chyfrannau.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

RHEOLAETH FEWNOL

Mae Bwrdd y cyfarwyddwyr yn gyfrifol am system reolaeth fewnol y grŵp ac am adolygu ei heffeithiolrwydd, gan nodi mai sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid sicrwydd llwyr, y gellir ei ddarparu yn erbyn camddatgan neu golled pwysig. Mae'r cyfarwyddwyr wedi adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol a fu mewn grym ers y dyddiad pan rhestrwyd y cwmni sef 5 Tachwedd 2007, tan y dyddiad pan gaiff y Cyfrifon hyn a'r Adroddiad Blynyddol hwn eu cymeradwyo. Ceir proses barhaus er mwyn nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r grŵp yn eu hwynebu. Mae'r broses, sy'n cyd-fynd â chanllawiau "Turnbull", yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd yn ystod ei gyfarfodydd, a chaiff camau eu cymryd i ddelio â meysydd i'w gwella y tynnir sylw'r Bwrdd atynt.

BUSNES GWEITHREDOL

Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd gan y cwmni adnoddau digonol er mwyn parhau i weithredu am gryn amser eto, felly mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon hyn.

ARCHWILWYR

Yn achos pob un o'r unigolion sy'n gyfarwyddwyr y cwmni ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad hwn:

- i'r graddau y mae pob un o'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn bodoli (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cwmnïau 1985), nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac

- mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylent eu cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol (yn unol â'r diffiniad), ac i sicrhau bod archwilwyr y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhoddir y cadarnhad hwn, a dylid ei ddehongli yn unol â darpariaethau a234ZA Deddf Cwmnïau 1985.

Mae Deloitte & Touche LLP wedi mynegi eu parodrwydd i barhau i fod yn archwilwyr y cwmni, a chynigir eu hailbenodi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir cyn bo hir.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr
ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd

Mark Fenwick
Cyfarwyddwr Ariannol
21 Hydref 2008

DATGANIAD CYFUNOL YNGHYLCH CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar gyfer y grŵp yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) ac maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol ar gyfer y cwmni yn unol ag IFRSs. Mae cyfraith gwmnïau yn mynnu bod y cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol o'r fath yn unol ag IFRSs a Deddf Cwmnïau 1985.

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 1 yn mynnu bod datganiadau ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol a llif arian y cwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn ffordd deg. Mae hyn yn gofyn am gynrychiolaeth ffyddlon o effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau yn unol â'r diffiniadau a'r meini prawf cydnabod ar gyfer asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau a nodir yn 'Fframwaith ar gyfer paratoi a Chyflwyno Datganiadau Ariannol' y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol. Mewn bron pob sefyllfa, bydd cyflwyniad teg yn cael ei sicrhau trwy gydymffurfio â'r holl Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Yn ogystal, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- ddethol a gweithredu polisi cyfrifyddu yn gywir;
- cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy, cymharol a dealladwy; a
- darparu datgeliadau ychwanegol pan na fydd cydymffurfiaeth â'r gofynion penodol yn IFRSs yn ddigonol er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau eraill ac amodau ynghylch sefyllfa ariannol yr endid a'i berfformiad ariannol.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni ar unrhyw adeg, gyda chywirdeb rhesymol, yn ogystal â diogelu'r asedau, cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall, ac am baratoi adroddiad y cyfarwyddwyr, sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 1985.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal gwefan y cwmni, a'i huniondeb. Mae deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r broses o baratoi a lledaenu datganiadau ariannol, yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

ADRODDIAD CYFUNOL YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL AR GYFER AELODAU BOOMERANG +

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol grŵp a rhiant-gwmni Boomerang Plus Ccc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008, sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfunol, y datganiad newidiadau o ran ecwiti cyfunol ac ar gyfer y cwmni, y mantolenni cyfunol ac ar gyfer y cwmni, y datganiad llif arian cyfunol ac ar gyfer y cwmni a'r nodiadau 1 i 29 cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol ag adran 235 Deddf Cwmnïau 1985. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio mewn ffordd sy'n ein galluogi i ddatgan i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n rhaid i ni eu datgan mewn adroddiad archwilwyr, heb i hynny fod at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawn a ganiateir gan y gyfraith, ni fyddwn yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu'r safbwyntiau a ffurfiwyd gennym, i unrhyw un ac eithrio'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff.

CYFRIFOLDEBAU PRIODOL CYFARWYDDWYR AC ARCHWILWYR

Nodir cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn natganiad cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon).

Rydym yn adrodd ein barn i chi ynghylch a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn rhoi darlun cywir a theg, ac a ydynt wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985. Yn ogystal, byddwn yn adrodd ein barn i chi ynghylch a yw'r wybodaeth yn adroddiad y cyfarwyddwyr yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol cyfunol.

Yn ogystal, byddwn yn adrodd i chi os nad yw'r cwmni, yn ein barn ni, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y bydd angen i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd y wybodaeth a bennwyd gan y gyfraith ynghylch cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr a thrafodion eraill.

Byddwn yn darllen y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol fel y'i disgrifiwyd yn yr adran gynnwys, gan ystyried a yw'n cyd-fynd â datganiadau ariannol y grŵp archwilio. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys datganiad y Cadeirydd, yr adolygiad busnes ac adroddiad y cyfarwyddwyr yn unig, gan ystyried a yw'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol cyfunol a archwiliwyd. Byddwn yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau pwysig gyda'r datganiadau ariannol cyfunol. Nid yw ein cyfrifoldebau ni yn ymestyn i unrhyw wybodaeth bellach y tu hwnt i'r adroddiad blynyddol.

SAIL Y FARN ARCHWILIO

Aethom ati i gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol cyfunol. Yn ogystal, mae'n cynnwys asesiad o'r barnau a'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaethpwyd gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol cyfunol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r cwmni a'r grŵp, a ydynt yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson ac yn cael eu datgelu mewn ffordd ddigonol.

Aethom ati i gynllunio a chynnal ein harchwiliad er mwyn sicrhau'r holl wybodaeth a'r holl esboniadau a fernir yn angenrheidiol gennym, er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i'n galluogi ni i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cyfunol yn rhydd o gamddatganiad pwysig, boed hynny wedi cael ei achosi gan dwyll neu gan afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth ffurfio ein barn, aethom ati hefyd i archwilio digonolrwydd cyffredinol y broses o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol cyfunol.

BARN

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol ag IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mai 2008, a'i elw ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985; ac
- mae'r wybodaeth a nodir yn adroddiad y cyfarwyddwyr yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Deloitte & Touche LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd, Y Deyrnas Unedig

21 Hydref 2008

DATGANIAD INCWM CYFUNOL

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAI 2008

	Nodyn	2008 £'000	2007 £'000
GWEITHREDOEDD SY'N PARHAU			
Refeniw	2	20,931	10,459
Cost gwerthiannau		(17,034)	(8,343)
ELW GROS		3,897	2,116
Treuliau gweinyddol			
Treuliau gweinyddol eraill		(1,874)	(1,311)
Treuliau gweinyddol eithriadol	7	(739)	-
Amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes	13	(38)	(56)
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti		(23)	(15)
Cyfanswm y treuliau gweinyddol		(2,674)	(1,382)
Incwm gweithredol arall		133	72
Cyfran canlyniadau cyd-fentrau		48	20
Darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiad mewn cyfrannog	5	-	(102)
ELW GWEITHREDOL	5	1,404	724
Refeniw buddsoddi	8	32	38
Costau cyllid	9	(133)	(82)
ELW CYN TRETH		1,303	680
Treth	11	(617)	(301)
ELW AR GYFER Y CYFNOD		686	379
I'w briodoli i:			
Deiliaid ecwiti y rhiant		686	345
Buddiannau lleiafrifol		-	34
		686	379
Enillion fesul cyfran	12		
Sylfaenol		8.77c	5.65c
Gwanedig		8.31c	5.06c
Addasedig – sylfaenol		18.99c	6.81c
Addasedig – gwanedig		17.78c	6.08c

DATGANIAD NEWIDIADAU O RAN ECWITI

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAI 2008

GRŴP	Cyfalaf cyfrannau £'000	Cyfrif premiwm cyfrannau £'000	Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad £'000	Enillion argadwedig £'000	Cyfanswm £'000	Budd lleiafrifol £'000	Cyfanswm yr ecwiti £'000
Balans ar 1 Mehefin 2006	66	969	744	1,441	3,220	-	3,220
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	345	345	34	379
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	2	-	473	-	475	-	475
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	15	15	-	15
Caffael budd lleiafrifol	-	-	-	-	-	(34)	(34)
Balans ar 31 Mai 2007	68	969	1,217	1,801	4,055	-	4,055
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	686	686	-	686
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd (*)	21	2,962	-	-	2,983	-	2,983
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	23	23	-	23
Balans ar 31 Mai 2008	89	3,931	1,217	2,510	7,747	-	7,747

Mae'r grŵp wedi manteisio ar adran 131 Deddf Cwmnïau 1985, felly mae'r swm dros ben o werth nominal y cyfrannau a ddosbarthwyd ac eithrio am arian, wedi cael ei neilltuo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad.

CWMNI	Cyfalaf cyfrannau £'000	Cyfrif premiwm cyfrannau £'000	Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad £'000	Enillion argadwedig £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Mehefin 2006	66	969	744	1,549	3,328
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	370	370
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	2	-	473	-	475
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	15	15
Balans ar 31 Mai 2007	68	969	1,217	1,934	4,188
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	352	352
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd (*)	21	2,962	-	-	2,983
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	23	23
Balans ar 31 Mai 2008	89	3,931	1,217	2,309	7,546

(*) Nodir y swm net o gostau dosbarthu cyfrannau o £150,000

MANTOLENNI

31 MAI 2008

	Nodyn	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 Fel yr ailddatganwyd - gweler nodyn 27 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 Fel yr ailddatganwyd - gweler nodyn 27 £'000
ASEDAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL					
Ewyllys da	13	2,108	2,108	-	-
Asedau anniriaethol eraill	13	1,229	1,225	21	21
Eiddo, cyfarpar ac offer	14	1,662	1,302	1,216	761
Buddsoddiadau	15	124	83	4,757	4,757
		5,123	4,718	5,994	5,539
ASEDAU CYFREDOL					
Stocrestrau	16	3	5	-	-
Masnach a derbyniadau eraill	17	2,851	1,817	2,206	789
Arian a chyfwerthoedd arian	17	6,325	3,935	2,893	2,134
		9,179	5,757	5,099	2,923
CYFANSWM YR ASEDAU		14,302	10,475	11,093	8,462
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Masnach a symiau taladwy eraill	19	4,894	4,009	2,343	2,281
Rhwymedigaethau treth cyfredol		589	423	181	116
Cael a rhoi benthyciadau sy'n dwyn llog	18	278	421	252	372
Cydnabyddiaeth ohiriedig	22	174	864	174	864
		5,935	5,717	2,950	3,633
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL					
Cael a rhoi benthyciadau sy'n dwyn llog	18	290	272	286	242
Symiau taladwy eraill	19	68	44	64	44
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	20	103	81	88	49
Cydnabyddiaeth ohiriedig	22	159	306	159	306
		620	703	597	641
CYFANSWM Y RHWYMEDIGAETHAU		6,555	6,420	3,547	4,274
ASEDAU NET		7,747	4,055	7,546	4,188

31 MAI 2008

	Nodyn	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
ECWITI					
Cyfalaf cyfrannau	24	89	68	89	68
Cyfrif premiwm cyfrannau		3,931	969	3,931	969
Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad		1,217	1,217	1,217	1,217
Enillion argadwedig		2,510	1,801	2,309	1,934
CYFANSWM YR ECWITI		7,747	4,055	7,546	4,188

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr

H E Davies
Cyfarwyddwr

M W Fenwick
Cyfarwyddwr

DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAI 2008

	Nodyn	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
MEWNLIF /(ECHLIF) ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL	28	1,044	2,379	(1,353)	1,595
GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI					
Llog a gafwyd		32	38	13	27
Difidendau a gafwyd		-	-	630	304
Prynu eiddo, cyfarpar ac offer		(346)	(109)	(311)	(75)
Gwaredu is-gwmni		-	109	-	109
Caffael is-gwmnïau – echlif arian net sy'n codi wrth gaffael		-	(106)	-	-
Caffael is-gwmnïau (gweler nodyn 27)		(2)	-	-	(554)
Caffael is-gwmnïau – taliadau cydnabyddiaeth ohiriedig	22	(837)	(530)	(837)	(530)
Caffael cyfranogion – taliadau cydnabyddiaeth ohiriedig	22	-	(34)	-	(34)
Caffael asedau sefydlog anniriaethol		(69)	(26)	-	-
Enillion o waredu eiddo, cyfarpar ac offer		184	2	185	-
ARIAN NET A DDEFNYDDIWYD MEWN GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI		(1,038)	(656)	(320)	(753)
GWEITHGAREDDAU ARIANNU					
Ad-daliadau ymrwymiadau dan brydlesi cyllid		(329)	(193)	(280)	(119)
Ad-dalu benthyciadau		(350)	(16)	(350)	(16)
Enillion o ddosbarthu cyfrannau		2,983	-	2,983	-
Difidendau ffafredig a dalwyd		-	(28)	-	(28)
Grantiau a gafwyd		80	37	79	37
ARIAN NET SY'N DEILLIO O/(A DDEFNYDDIWYD MEWN) GWEITHGAREDDAU ARIANNU		2,384	(200)	2,432	(126)
CYNNYDD NET MEWN ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN		2,390	1,523	759	716
ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN AR DDECHRAU'R FLWYDDYN		3,935	2,412	2,134	1,418
ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN		6,325	3,935	2,893	2,134

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae Boomerang Plus Ccc yn gwmni corfforedig yn y Deyrnas Unedig dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 218 Heol Penarth, Caerdydd CF11 8NN. Nodir natur gweithredoedd grŵp hwn o'r DU, ynghyd â'i brif weithgareddau, yn yr adolygiad busnes a'r adran ynghylch y prif weithgarwch ar dudalen 8.

MABWYSIADU SAFONAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

GRŴP

Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae'r grŵp wedi mabwysiadu Offerynnau Ariannol: Datgeliadau IFRS 7, sy'n berthnasol ar gyfer y cyfnodau adrodd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2007, ynghyd â'r diwygiadau cysylltiedig i IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol. Effaith mabwysiadu IFRS 7 a'r newidiadau i IAS 1 fu ehangu'r datgeliadau a ddarparir yn y datganiadau ariannol hyn ynghylch offerynnau ariannol y grwp a'i drefniadau rheoli cyfalaf.

Ar y dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol cyfunol hyn, roedd y Safonau a'r Dehongliadau canlynol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid oeddent yn effeithiol eto, ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn:

IAS 23	Costau Benthyca (Diwygiedig)
IFRS 3	Cyfuniadau busnes (diwygiedig)
IFRS 8	Cylchrannau gweithredol
IFRIC 12	Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth
IFRIC 13	Rhaglenni Teyrngarwch Cwsmeriaid
IFRIC 14	IAS 19 – Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, Isafswm y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad.

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn ystod cyfnodau yn y dyfodol, yn cael effaith bwysig ar y datganiadau ariannol, ac eithrio'r datgeliadau cylchrannol ychwanegol pan fydd IFRS 8 yn dod i rym ar gyfer cyfnodau sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009.

CWMNI

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, fel y maent yn berthnasol i ddatganiadau ariannol y cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008, ac a weithredir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985.

Ar gyfer yr holl gyfnodau tan a chan gynnwys y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2007, aeth y cwmni ati i baratoi ei ddatganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP). Y datganiadau hyn, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008, yw'r rhai cyntaf y mae'r cwmni wedi dewis eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Dyddiad y newid i IFRS oedd 1 Mehefin 2006, sef dechrau'r cyfnod cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2007. Mae'r cwmni wedi gweithredu IFRS ar gyfer mabwysiadu tro-cyntaf.

Nid yw'r broses o fabwysiadu IFRS wedi arwain at unrhyw newidiadau i incwm a gwariant neu asedau a rhwymedigaethau a gyflwynwyd yn flaenorol ar sail polisïau cyfrifyddu y DU.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

2. POLISÏAU CYFRIFYDDU

SAIL Y CYFRIFYDDU

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail cost hanesyddol. Isod, amlinellir y prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

Cyflwynir y gweithgareddau ariannol hyn mewn punnoedd sterling gan mai dyma arian breiniol y prif amgylchedd economaidd y mae'r grŵp yn gweithredu ynddo.

SAIL Y CYFUNO

Mae'r wybodaeth ariannol gyfunol yn cynnwys gwybodaeth ariannol y cwmni a'r endidau a reolir gan y cwmni (ei is-gwmnïau). Caiff rheolaeth ei sicrhau pan fo'r cwmni yn meddu ar y grym i lywodraethu polisïau gweithredol ac ariannol endid buddsoddi er mwyn sicrhau manteision o'i weithgareddau.

Gwaredir yr holl drafodion, balansau, incwm a threuliau o fewn y grŵp wrth gyfuno.

CYFUNIADAU BUSNES

Rhoddir cyfrif am gaffael is-gwmnïau trwy ddefnyddio'r dull prynu. Caiff cost y caffaeliad ei fesur fel cyfanred gwerthoedd teg yr asedau a roddwyd, y rhwymedigaethau a ddaw yn sgil hynny neu a ysgwyddir, ac offerynnau ecwiti a ddosbarthir gan y grŵp yn gyfnewid am reolaeth y sawl a gaffaelir ar y dyddiad cyfnewid, ac unrhyw gostau y gellir eu priodoli yn uniongyrchol i'r cyfuniad busnes. Caiff asedau adnabyddadwy, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau presennol y sawl a gaffaelir sy'n bodloni'r amodau ynghylch cydnabod dan IFRS 3, eu cydnabod yn unol â'u gwerth teg ar y dyddiad caffael, ac eithrio ar gyfer asedau nad ydynt yn rhai cyfredol (neu grwpiau gwaredu) a ddosbarthir fel rhai a gedwir i'w hailwerthu yn unol ag IFRS 5 Asedau Heb fod yn rhai Cyfredol a Gedwir i'w Gwerthu a Gweithredoedd a Derfynwyd, sy'n cael eu cydnabod a'u mesur yn unol â'u gwerth teg yn llai costau i'w gwerthu.

Mae'r grŵp wedi manteisio ar adran 131 Deddf Cwmnïau 1985, felly mae'r swm dros ben o werth nominal y cyfrannau a ddosbarthwyd ac eithrio ar gyfer arian, wedi cael ei neilltuo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad.

Caiff ewyllys da sy'n deillio o gaffael ei gydnabod fel ased a'i fesur am y gost i ddechrau, sef y swm dros ben o gost y cyfuniad busnes dros fudd y grŵp yng ngwerth teg net yr asedau adnabyddadwy, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau presennol a gydnabuwyd. Ar ôl ailasesu, os bydd budd y grŵp yng ngwerthoedd teg net asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau adnabyddadwy y sawl a gaffaelir yn uwch na chost y cyfuniad busnes, caiff y swm dros ben ei gydnabod yn y datganiad incwm yn syth.

I ddechrau, mesurir budd cyfranddalwyr lleiafrifol yn y sawl a gaffaelir yn unol â chyfran y rhai lleiafrifol o werth teg net yr asedau, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau presennol cydnabyddedig.

ENDIDAU A REOLIR AR Y CYD

Mae cyd-fenter yn endid y mae gan y grŵp reolaeth drosto ar y cyd, a gallu ar y cyd i lywodraethu penderfyniadau polisi ariannol a gweithredol y gweithgarwch economaidd er mwyn sicrhau buddion ohono.

Mae'r grŵp yn rhoi cyfrif am ei endidau a reolir ar y cyd trwy gyfrwng dull cyfrifyddu ecwiti.

EWYLLYS DA

Mae ewyllys da sy'n codi wrth gyfuno yn cynrychioli swm dros ben y gost gaffael dros fudd y grŵp yng ngwerth teg asedau adnabyddadwy a rhwymedigaethau is-gwmni ac endidau a reolir ar y cyd ar y dyddiad caffael. I ddechrau, caiff ewyllys da ei gydnabod fel ased am y gost ac yn dilyn hyn, caiff ei fesur fel cost yn llai unrhyw golledion amhariad cronedig. Caiff ewyllys da, a gydnabyddir fel ased, ei adolygu ar gyfer amhariad o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff unrhyw amhariad ei gydnabod yn y datganiad incwm, ac ni chaiff ei wrthdroi wedi hyn.

At ddibenion profi amhariad, caiff ewyllys da ei neilltuo i bob uned yn y grŵp sy'n gwneud arian ac y disgwylir iddynt elwa ar synergeddau'r cyfuniad. Caiff unedau sy'n gwneud arian, y neilltuwyd ewyllys da iddynt, eu profi am amhariad bob blwyddyn, neu'n amlach na hynny pan geir arwydd y gallai'r uned fod yn dioddef amhariad. Os bydd swm adferadwy yr uned sy'n gwneud arian yn llai na swm cynnal yr uned, caiff colled yr amhariad ei neilltuo yn gyntaf er mwyn gostwng swm cynnal unrhyw ewyllys da sy'n cael ei neilltuo i'r uned ac yna i asedau eraill yr uned pro-rata, ar sail swm cynnal pob ased yn yr uned. Ni chaiff colled amhariad a gydnabyddir ar gyfer ewyllys da ei wrthdroi yn ystod cyfnod dilynol.

Wrth waredu unrhyw is-gwmni, caiff swm cyfrifadwy yr ewyllys da ei gynnwys yn y diffiniad elw neu golled wrth waredu.

Mae ewyllys da sy'n deillio o gyfuniadau busnes cyn y dyddiad trosglwyddo i IFRS wedi cael ei gadw yn ôl, yn unol â'r gwerth a fyddai'n dod trwy weithredu egwyddorion UK GAAP.

REFENIW A CHYDNABYDDIAETH REFENIW

Mae refeniw (nad yw'n cynnwys TAW) yn cynrychioli symiau a geir am waith a gyflawnir wrth gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu rhaglenni teledu a radio, ac mae'n cael ei gydnabod yn ystod cyfnod y gweithgarwch cysylltiedig. Mesurir refeniw trwy gyfeirio at werth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd neu i'w dderbyn gan gwsmeriaid. Caiff elw gros ar weithgarwch cynhyrchu ei gydnabod yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac yn unol â'r contract sylfaenol. Caiff achosion o orwario ar gost cynyrchiadau eu cydnabod wrth iddynt godi ac achosion o danwario ar y gost a ffioedd terfynol cynyrchiadau eu cydnabod ar ôl cwblhau'r cynyrchiadau yn unol â'r cytundeb cytundebol sylfaenol. Pan fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen ar gynyrchiadau a phan fo'r gwerthiannau a anfonebwyd yn uwch na chost y gwaith a gwblhawyd, nodir y swm dros ben fel incwm gohiriedig. Pan fo gwerth y gwaith a gwblhawyd yn uwch na'r swm a anfonebwyd, nodir y swm dros ben fel incwm cronedig. Pan y bydd yn debygol y bydd cyfanswm y costau cynhyrchu yn uwch na'r refeniw dan gontract, caiff y golled ddisgwyliedig ei chydnabod fel traul yn syth.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

EITEMAU EITHRIADOL

Mae eitemau eithriadol yn ymwneud ag eitemau arwyddocaol sy'n perthyn i weithgareddau'r grŵp ac a ddatgelir ar wahân oherwydd eu maint neu eu mynychdra er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth lawn o berfformiad ariannol y grŵp.

PRYDLESI

Caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi cyllid pryd bynnag y bydd amodau'r brydles yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchnogaeth i'r daliwr prydles mewn ffordd sylweddol.

Caiff asedau a gedwir dan brydles gyllid eu cydnabod fel asedau yn y fantolen yn unol â'u gwerth teg neu, os yw'n is, yn unol â gwerth presennol isafswm y taliadau prydles, y bydd pob un yn cael eu pennu ar ddechrau'r brydles. Cynhwysir y rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr yn y fantolen fel ymrwymiad prydles gyllid. Caiff taliadau prydles eu dosrannu rhwng taliadau cyllid a lleihau'r ymrwymiad prydles er mwyn sicrhau cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Caiff taliadau cyllid eu codi yn uniongyrchol yn erbyn incwm.

Caiff trefniadau rhentu dan brydlesi gweithredol eu codi i'r datganiad incwm ar sail llinol yn ystod cyfnod y brydles.

GRANTIAU

Bydd grantiau o ran gwariant cyfalaf yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig a chânt eu rhyddhau i'r datganiad incwm yn ystod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol. Caiff grantiau o natur refeniw eu credydu i'r incwm yn ystod y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

ELW GWEITHREDOL

Caiff elw gweithredol ei ddatgan ar ôl credydu/codi tâl cyfran canlyniadau cyd-fentrau a darpariaethau codi tâl ar gyfer amhariad mewn buddsoddiadau mewn cyfranogion, ond cyn incwm buddsoddi a chostau cyllid.

COSTAU BUDDION YMDDEOL

Mae'r cwmni yn gweithredu cynllun buddion ymddeol cyfraniad diffiniedig. Codir taliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniad diffiniedig fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

TRETH

Mae'r traul treth yn cynrychioli swm y dreth i'w thalu ar hyn o bryd, a threth ohiriedig.

Mae'r dreth i'w thalu ar hyn o bryd wedi'i seilio ar elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn. Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net fel yr adroddwyd yn y datganiad incwm, gan nad yw'n cynnwys eitemau incwm neu dreuliau sy'n drethadwy neu sy'n dynadwy mewn blynyddoedd eraill ac at hynny, mae'n gwahardd eitemau nad ydynt fyth yn drethadwy neu'n dynadwy. Caiff rhwymedigaeth y grŵp ar gyfer treth gyfredol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddatganwyd neu a ddatganwyd o ran sylwedd erbyn dyddiad y fantolen.

Treth ohiriedig yw'r dreth y disgwylir iddi fod yn daladwy neu'n adferadwy ar gyfer gwahaniaethau rhwng symiau cynnal asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol a'r seiliau treth cyfatebol a ddefnyddir wrth gyfrifiannu elw trethadwy, a rhoddir cyfrif amdani trwy ddefnyddio dull rhwymedigaeth y fantolen. Yn gyffredinol, caiff rhwymedigaethau treth ohiriedig eu cydnabod ar gyfer yr holl wahaniaethau dros dro trethadwy a chaiff asedau treth ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ag y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro tynadwy yn ei erbyn. Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau o'r fath eu cydnabod os bydd y gwahaniaeth dros dro sy'n codi o'r cydnabod ewyllys da cychwynnol neu o'r cydnabod cychwynnol (ac eithrio mewn cyfuniad busnes) ar gyfer asedau a rhwymedigaethau eraill mewn trafodyn, nad yw'n effeithio ar yr elw treth na'r elw cyfrifyddu.

Caiff rhwymedigaethau treth ohiriedig eu cydnabod ar gyfer gwahaniaethau dros dro trethadwy sy'n codi ar fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chyfranogion a buddiannau mewn cyd-fentrau, ac eithrio pan fo'r grŵp yn gallu rheoli'r broses o wrthdroi'r gwahaniaeth dros dro ac mae'n debygol na fydd y gwahaniaeth dros dro yn gwrthdroi hyd y gellir rhagweld.

Caiff y swm cynnal hwn o asedau treth ohiriedig ei adolygu ar ddyddiad pob mantolen a'i leihau i'r graddau lle na fydd yn debygol mwyach y bydd elw trethadwy digonol ar gael i ganiatáu adfer yr holl ased neu ran ohono.

Caiff treth ohiriedig ei chyfrifo yn unol â'r cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo neu pan fydd yr ased yn cael ei sylweddu. Caiff treth ohiriedig ei chodi neu ei chredydu i'r datganiad incwm, ac eithrio pan fydd yn ymwneud ag eitemau a godwyd neu a gredydwyd yn uniongyrchol i ecwiti, ac os felly, rhoddir sylw i'r dreth ohiriedig yn ecwiti hefyd.

Caiff asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig eu gwrthbwyso pan geir hawl y medrir ei gorfodi yn gyfreithiol i osod asedau treth cyfredol yn erbyn rhwymedigaethau treth cyfredol a phan fyddant yn ymwneud â threthi incwm a godir gan yr un awdurdod trethu ac mae'r grŵp yn bwriadu setlo ei rwymedigaethau a'i asedau treth cyfredol ar sail net.

EIDDO, CYFARPAR AC OFFER

Cedwir eiddo, cyfarpar ac offer am yn gost yn llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golled amhariad cydnabyddedig. Cânt eu dibrisio i'w gwerth gweddillol gan ddefnyddio'r dull llinol yn ystod eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Gwelliannau i eiddo prydlesol	-	Yn ystod cyfnod y brydles
Cyfarpar a pheiriannau	-	14.3% i 20% llinol
Gosodiadau a ffitiadau	-	15% i 20% llinol
Cerbydau modur	-	20% i 25% llinol
Offer cyfrifiadurol	-	20% i 25% llinol

Caiff asedau sy'n cael eu dal dan brydlesi cyllid eu dibrisio yn ystod eu hoes ddefnyddiol fel y nodir uchod.

Caiff yr ennill neu'r golled sy'n deillio o waredu neu ymddeol ased ei bennu fel y gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a swm cynnal yr ased, a chaiff ei gydnabod yn y datganiad incwm.

COSTAU DATBLYGU

Caiff gwariant ar weithgareddau ymchwil ei gydnabod fel traul yn ystod y cyfnod y bydd yn codi.

Caiff ased anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol ac sy'n codi o ddatblygiad cynhyrchu y grŵp ei gydnabod os bodlonir yr amodau canlynol yn unig:

- caiff ased ei greu y mae modd ei nodi;
- mae'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn sicrhau buddion economaidd yn y dyfodol; ac
- mae modd mesur cost ddatblygu yr ased mewn ffordd ddibynadwy.

Caiff cost rhaglenni datblygu nad ydynt yn bodloni meini prawf IAS 38, ei ddileu i'r datganiad incwm.

CATALOG RHAGLENNI

Caiff buddsoddiadau mewn catalogau rhaglenni eu cyfalafu am y gost yn llai darpariaeth ar gyfer amhariad. Caiff y gost ei hamorteiddio dros dair blynedd, cyfnod disgwyliedig incwm dosbarthu.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

ASEDAU ANNIRIAETHOL GWAHANADWY

Pan wneir caffaeliad, cynhelir adolygiad i nodi asedau anariannol y gellir eu nodi ar wahân ac sy'n bodloni'r diffiniad dan "Asedau anniriaethol" IAS 38. O ran caffaeliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod ers trosglwyddo i IFRS, cydnabuwyd bod modd nodi perthnasoedd cwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu ar wahân. Pennwyd y gwerth teg ar sail sy'n adlewyrchu'r symiau y byddai'r caffaelwr wedi'u talu am yr asedau mewn trafodion hyd braich rhwng partïon bodlon gwybodus.

Caiff perthnasoedd cwsmeriaid cytundebol eu hamorteiddio yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae gan berthnasoedd cwsmeriaid anghytundebol oes amhenodol ac maent yn destun adolygiad amhariad blynyddol. Caiff cytundebau di-gystadlu eu hamorteiddio yn ystod oes y cytundeb, sef dwy flynedd ar gyfartaledd.

ASEDAU ANNIRIAETHOL ERAILL

Caiff costau caffael hawliau i incwm comisiwn gan gontractau rheoli talent eu hamorteiddio dros dair blynedd, y cyfnod y bydd y grŵp yn cael budd o'r contractau. Caiff costau creu gwefannau masnachol eu hamorteiddio dros ddwy flynedd, sef y cyfnod y bydd y grŵp yn cael budd o'r gwefannau.

AMHARIAD ASEDAU DIRIAETHOL AC ANNIRIAETHOL AC EITHRIO EWYLLYS DA

Ar ddyddiad pob mantolen, bydd y grŵp yn adolygu symiau cynnal ei asedau diriaethol ac anniriaethol er mwyn pennu ar oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os bydd unrhyw arwyddion o'r fath yn bodoli, caiff swm adferadwy yr ased ei amcangyfrif er mwyn pennu graddau'r golled amhariad (os o gwbl). Pa na fydd yr ased yn sicrhau llif arian sy'n annibynnol ar yr asedau eraill, bydd y grŵp yn amcangyfrif swm adferadwy yr uned gwneud arian y mae'r ased yn perthyn iddi. Caiff ased anniriaethol y mae ganddo oes defnyddiol amhenodol ei brofi am amhariad bob blwyddyn a phryd bynnag y ceir arwydd y gallai'r ased fod yn amharedig.

Swm adferadwy yw'r uchaf o werth teg yn llai costau i'w werthu a gwerth o'i ddefnyddio. Wrth asesu gwerth o'i ddefnyddio, caiff y llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol ei ddisgowntio i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r ased nad yw'r amcangyfrifon ynghylch llif arian yn y dyfodol wedi cael eu haddasu ar eu cyfer.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned gwneud arian) yn llai na'i swm cynnal, caiff swm cynnal yr ased (uned gwneud arian) ei ostwng i'w swm adferadwy. Caiff colled amhariad ei gydnabod fel traul yn syth, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gynnal ar swm a ailbrisiwyd ac os felly, caiff y colled amhariad ei drin fel gostyngiad ailbrisio.

Pan fydd colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedi hyn, caiff swm cynnal yr ased (uned gwneud arian) ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel na fydd y swm cynnal uwch yn uwch na'r swm cynnal a fyddai wedi cael ei bennu os na fyddai unrhyw golled amhariad wedi cael ei gydnabod ar gyfer yr ased (uned gwneud arian) yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff gwrthdroi colled amhariad ei gydnabod fel incwm yn syth, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gynnal ar swm a ailbrisiwyd, ac os felly, caiff gwrthdroi y colled amhariad ei drin fel cynnydd ailbrisio.

BUDDSODDIADAU

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chyfranogion eu dal fel asedau anghyfredol a'u nodi am y gost yn llai darpariaeth am unrhyw amhariad.

STOCRESTRAU

Caiff stocrestrau eu datgan ar yr isaf o'r gwerth sylweddoladwy cost a net. Mae cost yn cynnwys costau pwysig uniongyrchol. Mae gwerth sylweddoladwy net yn cynrychioli'r pris gwerthu amcangyfrifedig yn llai yr holl gostau cwblhau amcangyfrifedig.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ym mantolen y grŵp pan fo'r grŵp yn ymrwymo i ddarpariaeth gytundebol yr offeryn.

DERBYNIADAU MASNACHOL

Mesurir derbyniadau masnachol yn unol â chydnabyddiaeth gychwynnol o'u gwerth teg, ac yn dilyn hyn, cânt eu mesur am y gost wedi amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cydnabyddir lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig yn y datganiad incwm pan geir tystiolaeth gwrthrychol bod yr ased yn amharedig. Caiff y lwfans a gydnabyddir ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cynnal yr ased a gwerth presennol y llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio yn ôl y gyfradd llog effeithiol a gyfrifiannwyd wrth gydnabod yn gychwynnol.

ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Mae arian a chyfwerthoedd arian yn cynnwys arian wrth law a chyfrifon cyfredol sy'n cael eu dal ar alw gan fanciau.

SYMIAU TALADWY MASNACHOL

I ddechrau, mesurir symiau taladwy masnachol yn ôl eu gwerth teg, ac wedi hyn, cânt eu mesur yn unol â chost wedi'i amorteiddio trwy ddefnyddio dull y cyfradd llog effeithiol.

OFFERYNNAU ARIANNOL CYFANSAWDD – CYFRANNAU FFAFREDIG

Caiff offerynnau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol eu gwerthuso er mwyn pennu a yw'r offeryn ariannol yn cynnwys cydran rhwymedigaeth ac ecwiti. Caiff cydrannau o'r fath eu dosbarthu ar wahân fel rhwymedigaethau ariannol ac offerynnau ecwiti. Mae cyfanswm y symiau cynnal sy'n cael ei neilltuo i'r cydrannau rhwymedigaeth ac ecwiti wrth eu cydnabod yn gychwynnol, yr un fath â'r gwerth teg a briodolir i'r offeryn cyfan.

OFFERYNNAU ARIANNOL HYBRID

Caiff offerynnau ariannol eu gwerthuso er mwyn pennu a ydynt yn offerynnau hybrid (cyfunol). Mae offeryn hybrid yn gontract offeryn ariannol cynhaliol nad yw'n ddeilliadol, sy'n cynnwys deilliad ymgorfforedig hefyd, gyda'r effaith bod rhywfaint o lif arian yr offeryn hybrid yn amrywio mewn ffordd debyg i ddeilliad annibynnol. Mae deilliad ymgorfforedig yn achosi rhywfaint neu'r holl lif arian y byddai angen ei addasu fel arall yn ôl y contract, yn unol â newidyn ariannol a nodwyd.

Pan fydd contract cynhaliol yn cynnwys un deilliad ymgorfforedig neu fwy, caiff y contract hybrid (cyfunol) cyfan gwbl ei fesur yn ôl gwerth teg i ddechrau. O ran mesur dilynol, gall y cwmni ddewis pennu gwerth teg y contract hybrid cyfan gwbl trwy gyfrwng elw a cholled neu, os na chaiff dewis ei wneud, rhaid rhoi cyfrif am y deilliad ymgorfforedig yn unol â gofynion IAS 39 "Offerynnau ariannol: cydnabod a mesur", paragraff 10.

OFFERYNNAU ECWITI

Cofnodir offerynnau ecwiti a ddosbarthir gan y cwmni fel enillion a gafwyd, net costau dosbarthu uniongyrchol.

DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan y grŵp ymrwymiad presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen i'r grŵp setlo'r ymrwymiad hwnnw. Mesurir darpariaethau yn unol ag amcangyfrif gorau y cyfarwyddwyr o'r gwariant sy'n angenrheidiol er mwyn setlo'r ymrwymiad ar ddyddiad y fantolen a chânt eu disgowntio i'r gwerth presennol pan fydd yr effaith yn bwysig.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

TALIAD WEDI'I SEILIO AR GYFRANNAU

Mae'r grŵp wedi gweithredu gofynion IFRS 2 taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau. Yn unol â'r ddarpariaeth drosiannol, gweithredwyd IFRS 2 i'r holl offerynnau dyfarnu ecwiti ar ôl 7 Tachwedd 2002 nad oeddent wedi'u breinio ar 1 Ionawr 2005.

Mae'r grŵp yn dosbarthu taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti, i rai cyflogeion. Mesurir taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad rhoi. Caiff y gwerth teg a bennir ar ddyddiad rhoi'r taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti, ei gostio ar sail llinol yn ystod y cyfnod breinio, wedi'i seilio ar amcangyfrif y grŵp o'r gyfran a fydd yn breinio yn y pen draw.

Caiff gwerth teg ei fesur trwy ddefnyddio model Black Scholes. Mae'r oes ddisgwyliedig a ddefnyddir yn y model wedi cael ei haddasu, ar sail amcangyfrif gorau y rheolwyr, ar gyfer effeithiau dim trosglwyddo, cyfyngiadau ymarfer ac ystyriaethau ymddygiadol.

3. BARNAU CYFRIFYDDU PWYSIG A FFYNONELLAU ALLWEDDOL ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF

BARNAU PWYSIG WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFYDDU Y CWMNI

Wrth weithredu polisïau cyfrifyddu y cwmni, a ddisgrifir yn nodyn 2, mae'r rheolwyr wedi ffurfio'r barnau canlynol, y maent wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

CYDNABYDDIAETH REFENIW

Caiff refeniw cynhyrchu ei gydnabod yn ystod cyfnod y gweithgarwch cynhyrchu cysylltiedig sy'n mynnu bod y rheolwyr yn ystyried y costau sydd wedi codi tan ddyddiad y fantolen ac i amcangyfrif y costau nes i'r cynhyrchu gael ei gwblhau, fel y disgrifiwyd yn nodyn 2.

Wrth ffurfio'r barnau hyn, ystyriodd y rheolwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod refeniw a nodwyd yn IAS 18 "Refeniw" ac egwyddorion IAS 11 "Contractau adeiladu" am arweiniad pellach gan ei fod yn berthnasol i refeniw a threuliau. Yn dilyn adolygiad manwl o gontractau cynhyrchu y grŵp, mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y gydnabyddiaeth refeniw a adroddwyd yn briodol.

NODI A MESUR ASEDAU ANNIRIAETHOL AR WAHÂN A GAFFAELWYD TRWY GYFUNO BUSNES

Mae IFRS 3: "Cyfuniadau Busnes" yn mynnu bod y sawl sy'n caffael yn nodi ased anniriaethol y sawl a gaffaelir ar wahân ar y dyddiad caffael os bydd yn bodloni diffiniad ased anniriaethol yn IAS 38: "Asedau anniriaethol" ac os oes modd mesur ei werth teg mewn ffordd ddibynadwy.

Mae IAS 38 yn diffinio ased anniriaethol fel 'ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol.'

Mae ased yn bodloni'r maen prawf ynghylch bod yn adnabyddadwy yn y diffiniad dim ond:

a) os yw'n wahanadwy, h.y. os oes modd ei wahanu neu ei rannu o'r endid a'i werthu, ei drosglwyddo, ei drwyddedu, ei rentu neu ei gyfnewid, yn unigol neu gyda chontract, ased neu rwymedigaeth cysylltiedig; neu

b) os yw'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill, os yw'r hawliau hynny yn drosglwyddadwy neu'n wahanadwy o'r endid neu o hawliau ac ymrwymiadau eraill neu beidio.

Mae IFRS 3 yn mynnu bod y caffaelwr yn pennu gwerth teg asedau anniriaethol trwy gyfeirio at farchnad weithredol yn unol â'r diffiniad yn IAS 38; neu, os na fydd marchnad weithredol yn bodoli, ar sail sy'n adlewyrchu'r symiau y byddai'r caffaelwr wedi'u talu am yr asedau mewn trafodion hyd braich rhwng partïon bodlon gwybodus, ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.

Nodir yr asedau anniriaethol ar wahân a gaffaelir fel rhan o gyfuniadau busnes a wireddir ar ôl trawsnewid i IFRS yn nodyn 13. Amcangyfrifwyd gwerthoedd yr asedau anniriaethol ar wahân ar y sail ganlynol:

CYTUNDEBAU DI-GYSTADLU: defnyddio "llif arian wedi'i ddisgowntio"; trwy amcangyfrif y llif arian posibl a allai gael eu colli os na fyddai'r cytundebau wedi bod mewn grym. Mae hyn yn mynnu bod yr endid yn amcangyfrif llif arian yn y dyfodol a chyfradd ddisgowntio addas er mwyn cyfrifo'r gwerth presennol.

PERTHNASOEDD GYDA CHWSMERIAID: defnyddio "ymagwedd incwm enillion dros ben"; trwy amcangyfrif y llif arian y disgwylir iddynt gael eu cynhyrchu o'r perthnasoedd net adenillion rhesymol ar asedau eraill yn cyfrannu at y ffrwd llif arian hwnnw hefyd, wedi'i ddisgowntio yn unol â chyfradd adenillion briodol. Mae hyn yn mynnu bod yr endid yn amcangyfrif llif arian yn y dyfodol a chyfradd ddisgowntio addas er mwyn cyfrifo'r gwerth presennol.

AMHARIAD EWYLLYS DA

Mae'r grŵp yn profi am amhariad yn flynyddol neu'n amlach na hynny os ceir arwyddion y gallai ewyllys da gael ei amharu.

Caiff swm adferadwy yr ewyllys da ei bennu o gyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio. Yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau allweddol ar gyfer y cyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio yw'r rhai sy'n ymwneud â'r cyfraddau disgowntio, cyfraddau twf a newidiadau disgwyliedig i werthiannau yn ystod y cyfnod. Mae rheolwyr yn amcangyfrif cyfraddau disgowntio trwy ddefnyddio cyfraddau cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r unedau gwneud arian.

Mae'r grŵp yn paratoi rhagolygon llif arian sy'n deillio o'r cyllidebau ariannol diweddaraf a gymeradwywyd gan y rheolwyr (sy'n ystyried profiad blaenorol a'r rhagolygon ynghylch twf y diwydiant) am y dair blynedd nesaf, gan allosod llif arian ar gyfer y saith mlynedd ddilynol wrth dybio y ceir twf blynyddol o 2.5% y flwyddyn o'r gyfradd hwnnw.

4. CYLCHRANNAU DAEARYDDOL A BUSNES

Mae cylchran fusnes yn grŵp o asedau a gweithredoedd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n wynebu risgiau ac adenillion sy'n wahanol i'r rhai ar gyfer cylchrannau busnes eraill. Prif weithgarwch y grŵp yw cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Mae'r cwsmeriaid a'r sianelau dosbarthu ar gyfer pob cwmni grwp yr un fath felly at ddibenion IAS 14 Adrodd Cylchrannau, mae'r endid cyfunol yn gweithredu mewn un cylchran fusnes. Gan bod y grŵp yn gweithredu mewn un cylchran fusnes yn unig, ni ddangoswyd unrhyw ddadansoddiad cylchrannol busnes ychwanegol.

Lleolir yr holl weithgareddau busnes yn y DU, felly mae'r grŵp yn gweithredu o fewn un cylchran ddaearyddol.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

5. ELW GWEITHREDOL

	2008 £'000	2007 £'000
CYRHAEDDWYD FAN HYN AR ÔL CODI TÂL/(CREDYDU)		
Grantiau llywodraeth – cyfalaf	(38)	(16)
Grantiau llywodraeth – refeniw	(61)	(17)
Dibrisiant eiddo, cyfarpar ac offer		
- asedau a berchenogir	200	280
- asedau a brydlesir	163	88
Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol	65	60
Amhariad buddsoddiad mewn cyfrannog	-	102
Elw o werthu eiddo, cyfarpar ac offer	(7)	(2)
Costau staff (gweler nodyn 6)	3,949	2,906
Cydnabyddiaeth archwilwyr – gwasanaethau archwilio	59	30
Cydnabyddiaeth archwilwyr – gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio	206	20

CYDNABYDDIAETH ARCHWILWYR

Mae'r dadansoddiad o gydnabyddiaeth archwilwyr fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Ffioedd i'w talu i archwilwyr y cwmni am archwilio cyfrifon blynyddol y grŵp	18	5
Ffioedd i'w talu i archwilwyr y cwmni am archwilio cyfrifon blynyddol y cwmni		
Ffioedd i'w talu wrth drosglwyddo i IFRS (o'r flwyddyn flaenorol)	21	25
	20	-
Cyfanswm y ffioedd archwilio	59	30
Gwasanaethau eraill:		
Gwasanaethau eraill yn unol â deddfwriaeth (rhestru AiM)	186	-
Gwasanaethau eraill yn unol â deddfwriaeth (Arall)	2	-
Gwasanaethau cynghori ynghylch treth	2	-
Gwasanaethau cydymffurfio â threth	16	5
Ymgynghoriaeth	-	15
Cyfanswm y ffioedd nad ydynt am wasanaethau archwilio	206	20

Nid oes angen datgelu'r ffioedd sy'n daladwy i Deloitte & Touche LLP a'u cyfranogion am wasanaethau i'r cwmni nad ydynt yn wasanaethau archwilio, gan bod yn rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu ffioedd o'r fath ar sail gyfunol.

6. GWYBODAETH YNGHYLCH CYFARWYDDWYR A CHYFLOGEION

GRŴP	2008 £'000	2007 £'000
TÂL CYFARWYDDWYR		
Tâl	396	446
Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn buddsoddi arian	27	50
Buddion ar ffurf rhoddion eraill	33	40
	456	536

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y cyfarwyddwyr yn dal 86,566 o opsiynau dros ben (2007 – 46,725). Gwnaethpwyd enillion o £43,890 (2007 - £dim) wrth i'r cyfarwyddwyr weithredu opsiynau cyfrannau yn ystod y flwyddyn.

	£'000	£'000
CYFARWYDDWR SY'N CAEL EI DALU FWYAF		
Tâl	91	83
Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn buddsoddi arian	6	5
	97	88

	No.	No.
Nifer y cyfarwyddwyr yn y cynllun pensiwn	7	6

	No.	No.
NIFER CYFARTALOG YR UNIGOLION CYFLOGEDIG (GAN GYNNWYS CYFARWYDDWYR)		
Cyfarwyddwyr	7	8
Cynhyrchu	95	69
Gweinyddu	6	5
	108	82

	£'000	£'000
COSTAU STAFF YN YSTOD Y FLWYDDYN (GAN GYNNWYS CYFARWYDDWYR)		
Cyflogau ac enillion	3,480	2,563
Costau nawdd cymdeithasol	377	273
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	23	15
Costau pensiwn	69	55
	3,949	2,906

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

CWMNI	2008 £'000	2007 £'000
TÂL CYFARWYDDWYR		
Tâl	333	353
Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn buddsoddi arian	22	40
Buddion ar ffurf rhoddion eraill	32	25
	387	418

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y cyfarwyddwyr yn dal 86,566 o opsiynau dros ben (2007 – 46,725). Gwnaethpwyd enillion o £43,890 (2007 - £dim) wrth i'r cyfarwyddwyr weithredu opsiynau cyfrannau yn ystod y flwyddyn.

	£'000	£'000
CYFARWYDDWR SY'N CAEL EI DALU FWYAF		
Tâl	91	83
Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn buddsoddi arian	6	5
	97	88

	No.	No.
Nifer y cyfarwyddwyr yn y cynllun pensiwn	6	5

	No.	No.
COSTAU STAFF YN YSTOD Y FLWYDDYN (GAN GYNNWYS CYFARWYDDWYR)		
Cyfarwyddwyr	6	6
Cynhyrchu	64	47
Gweinyddu	2	2
	72	55

	£'000	£'000
COSTAU STAFF YN YSTOD Y FLWYDDYN (GAN GYNNWYS CYFARWYDDWYR)		
Cyflogau ac enillion	2,300	1,844
Costau nawdd cymdeithasol	247	198
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	23	15
Costau pensiwn	22	31
	2,592	2,088

7. EITEMAU EITHRIADOL

	2008 £'000	2007 £'000
Costau sy'n gysylltiedig â rhestru AIM	642	-
Ffioedd proffesiynol yn ymwneud â chyfuniad aflwyddiannus	97	-
	739	-

Roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â rhestru AIM yn gostau nad oeddent i'w priodoli i godi ecwiti yn uniongyrchol.

8. REFENIW BUDDSODDI

	2008 £'000	2007 £'000
Llog ar adneuon banc	32	38

9. COSTAU CYLLID

	2008 £'000	2007 £'000
Llog ar fenthyciadau eraill	33	37
Llog ar ymrwymiadau dan brydlesi cyllid a chontractau hurbrynu	46	35
Llog arall a thaliadau tebyg	5	2
Cost cyllid cyfrannau ffafredig	17	8
Taliadau cyllid cydnabyddiaeth ohiriedig	32	-
	133	82

10. CYFRIF ELW A CHOLLED Y CWMNI

Yn unol â'r hyn a ganiateir gan adran 230 Deddf Cwmnïau 1985, mae'r cwmni wedi dewis peidio cyflwyno'i gyfrif elw a cholled ei hun ar gyfer y flwyddyn. Adroddodd Boomerang Plus Ccc elw o £352,000 (2007 - £370,000) ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

11. TRETH AR ELW AR WEITHGAREDDAU ARFEROL

	2008 £'000	2007 £'000
TRETH GYFREDOL		
Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig:		
Treth gyfredol o 30%/28% (2007 – 30%) ar yr incwm ar gyfer y flwyddyn	618	343
Addasiad o ystyried blynyddoedd blaenorol	(23)	-
CYFANSWM Y DRETH GYFREDOL	595	343
TRETH OHIRIEDIG		
Cychwyniad a gwrthdroad gwahaniaethau amseru	40	(42)
Addasiadau i symiau adferadwy amcangyfrifedig asedau treth ohiriedig a gododd yn ystod cyfnodau blaenorol	(18)	-
	22	(42)
CYFANSWM Y TÂL AR GYFER Y FLWYDDYN	617	301

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y treth a nodir uchod a'r swm sy'n cael ei gyfrifo trwy weithredu cyfradd safonol treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig i'r elw cyn treth, fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	1,303	680
Treth ar elw ar weithgareddau arferol cyn treth o 30%/28% (2007 - 30%)	387	204
FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y TÂL AR GYFER Y FLWYDDYN		
Treuliau nad ydynt yn dynadwy at ddibenion treth	249	20
Taliadau amhariad ac amorteiddiad nad ydynt yn dynadwy	11	47
Lwfansau cyfalaf (dros)/yn llai na dibrisiant	(45)	13
Colledion treth nas defnyddiwyd	12	3
Arall	4	5
Cymorth ymylol	-	18
Enillion trethadwy	-	33
Addasiadau'r flwyddyn flaenorol	(23)	-
Cychwyniad a gwrthdroad gwahaniaethau amseru	40	(42)
Addasiadau i symiau adferadwy amcangyfrifedig asedau treth ohiriedig a gododd yn ystod cyfnodau blaenorol	(18)	-
CYFANSWM Y TÂL TRETH AR GYFER Y FLWYDDYN	617	301

Mae'r cyfradd treth yn gyfradd gyfunol o 30% tan 31 Mawrth 2008 a 28% o 1 Ebrill 2008.
Ni ragwelir y bydd y gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth i 28% o 1 Ebrill 2008 yn cael effaith bwysig ar y tâl treth yn y dyfodol.

12. ENILLION FESUL CYFRAN

Seiliwyd y broses o gyfrifo'r enillion sylfaenol, gwanedig ac addasedig fesul cyfran ar y data canlynol:

	2008 £'000	2007 £'000
ENILLION		
Elw ar gyfer y flwyddyn	686	345
Cost cyllid cyfrannau ffafredig	17	8
ELW GWANEDIG	703	353
Treuliau gweinyddol eithriadol	739	-
Amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes	38	56
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	23	15
Elw addasedig	1,503	424
NIFER Y CYFRANNAU	Nifer.	Nifer.
Nifer cyfartalog cymhwysol y cyfrannau cyffredin at ddibenion enillion sylfaenol fesul cyfran	7,824,974	6,104,348
Effaith potensial gwanhaol cyfrannau cyffredin: Opsiynau cyfrannau	631,148	872,028
Nifer y cyfrannau cyfartalog cymhwysol gwanhaol	8,456,122	6,976,376
Enillion fesul cyfran cyffredin – sylfaenol	8.77c	5.65c
Enillion fesul cyfran cyffredin – gwanedig	8.31c	5.06c
Enillion addasedig fesul cyfran – sylfaenol	18.99c	6.81c
Enillion addasedig fesul cyfran – gwanedig	17.78c	6.08c

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

13. EWYLLYS DA AC ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL ERAILL

GRŴP	Ewyllys da £'000	Perthnasoedd gyda chwsmeriaid £'000	Cytundebau di-gystadlu £'000	Catalog Rhaglenni £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
COST						
Ar 1 Mehefin 2006	1,216	649	7	25	-	1,897
Ychwanegiadau	-	-	-	11	15	26
Caffael is-gwmnïau	844	548	30	-	-	1,422
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr adroddwyd)	2,060	1,197	37	36	15	3,345
Addasiadau gwerth teg - gweler nodyn 27	48	-	-	-	-	48
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr ailddatganwyd)	2,108	1,197	37	36	15	3,393
Ychwanegiadau	-	-	-	10	59	69
Ar 31 Mai 2008	2,108	1,197	37	46	74	3,462
AMORTEIDDIAD						
Ar 1 Mehefin 2006	-	-	-	-	-	-
Tâl ar gyfer y flwyddyn	-	43	13	4	-	60
Ar 1 Mehefin 2007	-	43	13	4	-	60
Tâl ar gyfer y flwyddyn(*)	-	23	15	-	27	65
Ar 31 Mai 2008	-	66	28	4	27	125
SWM CYNNAL						
Ar 31 Mai 2008	2,108	1,131	9	42	47	3,337
Ar 31 Mai 2007 (fel yr ailddatganwyd)	2,108	1,154	24	32	15	3,393

(*) Mae amorteiddiad asedau anniriaethol sy'n codi ar gaffaeliadau busnes o £38,000 yn ymwneud ag amorteiddiad perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu.

EWYLLYS DA, PERTHNASOEDD GYDA CHWSMERIAID A CHYTUNDEBAU DI-GYSTADLU

Mae ewyllys da, perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu yn codi wrth gyfuno. Mae perthnasoedd anghytundebol o £1,035,000 (2007 - £1,035,000) yn cael eu cynnwys ym mherthnasoedd gyda chwsmeriaid. Mae'r perthnasoedd hyn yn allweddol i ddyfodol y busnesau perthnasol yn y tymor hir, felly bernir bod ganddynt oes amhenodol a'u bod yn destun adolygiad amhariad blynyddol. Caiff perthnasoedd cytundebol gyda chwsmeriaid eu hamorteiddio yn ystod oes y contract sy'n bodoli eisoes, sef blwyddyn. Caiff cytundebau di-gystadlu eu hamorteiddio yn ystod oes y cytundeb, sy'n ddwy flynedd ar gyfartaledd.

Nodir addasiadau i'r gwerthoedd teg dros dro ar brynu Ffilmiau Apollo Cyfyngedig yn nodyn 27.

Caiff ewyllys da a pherthnasoedd anghytundebol sy'n cael eu caffael mewn cyfuniad busnes eu neilltuo wrth eu caffael i'r unedau gwneud arian ("UGAau") y disgwylir iddynt elwa o'r cyfuniad busnes. Cyn cydnabod unrhyw golledion amhariad, mae swm cynnal yr ewyllys da a'r perthnasoedd anghytundebol wedi cael ei neilltuo fel a ganlyn:

EWYLLYS DA	2008 £'000	2007 £'000
Fflic Cyfyngedig	577	577
Cynyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	639	639
Mwnci Cyfyngedig	296	296
Ffilmiau Apollo Cyfyngedig	596	596
	2,108	2,108

PERTHNASOEDD GYDA CHWSMERIAID ANGHYTUNDEBOL	£'000	£'000
Cynyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	639	639
Ffilmiau Apollo Cyfyngedig	396	396
	1,035	1,035

Mae'r grŵp yn profi ewyllys da a pherthnasoedd cwsmeriaid anghytundebol bob blwyddyn am amhariad, neu'n amlach na hynny os ceir arwyddion y gallai ewyllys da gael ei amharu.

Pennir symiau adferadwy UGAau o gyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio. Y tybiaethau allweddol ar gyfer y cyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio yw'r rhai sy'n ymwneud â'r cyfraddau disgwntio, cyfraddau twf a newidiadau disgwyliedig i brisiau gwerthu a chostau uniongyrchol yn ystod y cyfnod. Mae'r rheolwyr yn amcangyfrif cyfraddau disgwntio trwy ddefnyddio cyfraddau cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau marchnad presennol o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r UGAau. Seiliwyd y cyfraddau twf ar ragolygon ynghylch twf y diwydiant. Seiliwyd newidiadau mewn prisiau gwerthu a chostau uniongyrchol ar arferion gorau a'r disgwyliadau ynghylch newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol.

Mae'r grŵp yn paratoi rhagolygon llif arian sy'n deillio o'r cyllidebau ariannol diweddaraf a gymeradwywyd gan y rheolwyr am y dair blynedd nesaf, gan allosod llif arian ar gyfer y saith mlynedd ddilynol ar sail cyfradd amcangyfrifedig y ceir twf o 2.5 y cant y flwyddyn. Nid yw'r gyfradd hon yn uwch na'r gyfradd twf tymor hir cyfartalog ar gyfer y marchnadoedd perthnasol. Y gyfradd a ddefnyddiwyd i ddisgwntio'r llif arian a ragolygwyd ar gyfer pob un o'r UGAau fel y'u diffiniwyd uchod oedd 12%.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

CATALOG RHAGLENNI

Mae catalog rhaglenni yn ymwneud â'r buddsoddiad mewn rhaglenni sy'n cael eu dal at ddibenion dosbarthu.

ASEDAU ANNIRIAETHOL ERAILL

Mae asedau sefydlog anniriaethol eraill yn ymwneud ag incwm hawliau comisiwn o gontractau rheoli talent a'r costau o greu gwefannau masnachol.

CWMNI	Catalog rhaglenni £'000
COST	
Ar 1 Mehefin 2007 a 31 Mai 2008	25
AMORTEIDDIAD	
Ar 1 Mehefin 2007	4
Tâl ar gyfer y flwyddyn	-
Ar 31 Mai 2008	4
SWM CYNNAL	
Ar 31 Mai 2008	21
Ar 31 Mai 2007	21

14. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER

GRŴP	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Cerbydau modur £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
COST						
Ar 1 Mehefin 2006	179	711	234	136	58	1,318
Ychwanegiadau	24	207	33	13	32	309
Caffael is-gwmni	53	241	177	8	94	573
Gwarediadau	-	(2)	-	(13)	-	(15)
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr adroddwyd)	256	1,157	444	144	184	2,185
Addasiad gwerth teg – gweler nodyn 27	-	(33)	(4)	-	-	(37)
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr ailddatganwyd)	256	1,124	440	144	184	2,148
Ychwanegiadau	126	645	58	17	54	900
Trosglwyddo	-	47	-	-	(47)	-
Gwarediadau	-	(285)	(154)	(51)	(20)	(510)
Ar 31 Mai 2008	382	1,531	344	110	171	2,538
DIBRISIANT						
Ar 1 Mehefin 2006	16	269	117	74	16	492
Tâl ar gyfer y flwyddyn	25	192	72	30	49	368
Rhyddhau wrth waredu	-	(1)	-	(13)	-	(14)
Ar 1 Mehefin 2007	41	460	189	91	65	846
Tâl ar gyfer y flwyddyn	29	194	79	26	35	363
Rhyddhau wrth waredu	-	(111)	(154)	(48)	(20)	(333)
Ar 31 Mai 2008	70	543	114	69	80	876
GWERTH LLYFR NET						
Ar 31 Mai 2008	312	988	230	41	91	1,662
Ar 31 Mai 2007 (fel yr ailddatganwyd)	215	664	251	53	119	1,302

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

Wedi'i gynnwys o fewn y gwerth llyfr net o £1,662,000 (2007 - £1,302,000), mae'r canlynol yn ymwneud ag asedau sy'n cael eu dal dan gytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid:

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Cerbydau Modur £'000	Cyfanswm £'000
Ar 31 Mai 2008	35	634	24	693
Ar 31 Mai 2007	38	447	35	520

CWMNI	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Ffitiadau a gosodiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
COST						
Ar 1 Mehefin 2006	156	711	202	122	66	1,257
Ychwanegiadau	4	179	17	13	31	244
Gwarediadau	-	(3)	-	(13)	-	(16)
Ar 1 Mehefin 2007	160	887	219	122	97	1,485
Ychwanegiadau	117	643	46	17	42	865
Gwarediadau	-	(285)	(16)	(51)	(20)	(372)
Ar 31 Mai 2008	277	1,245	249	88	119	1,978
DIBRISIANT						
Ar 1 Mehefin 2006	7	269	110	70	25	481
Tâl ar gyfer y flwyddyn-	16	154	42	26	19	257
Rhyddhau wrth waredu	-	(1)	-	(13)	-	(14)
Ar 1 Mehefin 2007	23	422	152	83	44	724
Tâl ar gyfer y flwyddyn	15	138	32	20	27	232
Rhyddhau wrth waredu	-	(111)	(15)	(48)	(20)	(194)
Ar 31 Mai 2008	38	449	169	55	51	762

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Ffitiadau a gosodiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
GWERTH LLYFR NET						
Ar 31 Mai 2008	239	796	80	33	68	1,216
Ar 31 Mai 2007	137	465	67	39	53	761

Wedi'i gynnwys o fewn y gwerth llyfr net o £1,662,000 (2007 - £1,302,000), mae'r canlynol yn ymwneud ag asedau sy'n cael eu dal dan gytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid:

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Cerbydau Modur £'000	Cyfanswm £'000
Ar 31 Mai 2008	35	518	24	577
Ar 31 Mai 2007	38	305	35	378

15. BUDDSODDIADAU

GRŴP	Buddsoddiad mewn cyd-fentrau £'000	Buddsoddiad mewn cyfranogion £'000	Buddsoddiadau £'000	Cyfanswm £'000
COST				
Ar 1 Mehefin 2006	(2)	102	-	100
Ychwanegiadau	-	-	70	70
Cyfran o'r elw	15	-	-	15
Ar 1 Mehefin 2007	13	102	70	185
Cyfran o'r elw	41	-	-	41
Ar 31 Mai 2008	54	102	70	226
AMHARIAD AC AMORTEIDDIAD				
Ar 1 Mehefin 2007 a 31 Mai 2008	-	(102)	-	(102)

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

	Buddsoddiad mewn cyd-fentrau £'000	Buddsoddiad mewn cyfranogion £'000	Buddsoddiadau £'000	Cyfanswm £'000
GWERTH LLYFR NET				
Ar 31 Mai 2008	54	-	70	124
Ar 31 Mai 2007	13	-	70	83

CWMNI	Buddsoddiad mewn cyfranogion £'000	Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau £'000	Cyfanswm £'000
COST			
Ar 1 Mehefin 2006	102	2,491	2,593
Ychwanegiadau	-	2,328	2,328
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr adroddwyd)	102	4,819	4,921
Addasiadau – gweler nodyn 27	-	(62)	(62)
Ar 1 Mehefin 2007 (fel yr ailddatganwyd) ac ar 31 Mai 2008	102	4,757	4,859
AMHARIAD AC AMORTEIDDIAD			
Ar 1 Mehefin 2007 a 31 Mai 2008	(102)	-	(102)
GWERTH LLYFR NET			
Ar 31 Mai 2008	-	4,757	4,757
Ar 31 Mai 2007	-	4,757	4,757

Gwnaethpwyd gostyngiad o £62,000 i gost caffael Teledu Apollo Cyfyngedig, wedi'i seilio ar yr amcangyfrif o'r gydnabyddiaeth ohiriedig derfynol sy'n debygol o fod yn daladwy.

Mae buddsoddiadau'r cwmni mewn cwmnïau grŵp yn ymwneud â:

IS-GWMNÏAU	DALIAD (CYFRANNAU CYFFREDIN £1)	GWEITHGARWCH	GWLAD GORFFORI
Fflic Cyfyngedig	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Cynhyrchiadau Boomerang Cyfyngedig	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig*	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
218 Holdings Limited	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Mwnci Cyfyngedig*	100%	Ôl-gynhyrchu	Cymru
Ffilmiau Apollo Cyfyngedig	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Teledu Apollo Cyfyngedig*	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Boom Freesports Limited	88%	Rheoli hawliau	Cymru
Boom Talent Limited	51%	Rheoli talent	Cymru
CYD-FENTRAU			
Hanner:Hanner Cyfyngedig*	50%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Adnoddau Zoom Cyfyngedig*	50%	Cyfleusterau teledu	Cymru
Calon/Boom JV Limited *	50%	Dosbarthu	Cymru
CYFRANOGION			
Toucan Television Limited	30%	Cwmni anfasnachol	Lloegr

*yn cael ei ddal yn anuniongyrchol.

16. STOCRESTRAU

GRŴP	2008 £'000	2007 £'000
Cyflenwadau cynhyrchu	3	5

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

17. ASEDAU ARIANNOL ERAILL

MASNACH A DERBYNIADAU ERAILL

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
Derbyniadau masnach	1,446	1,082	807	126
Derbyniadau eraill	463	104	804	241
Blaendaliadau ac incwm cronedig	942	631	595	422
	2,851	1,817	2,206	789

Prif asedau ariannol y grŵp a'r cwmni yw arian a chyfwerthoedd arian, derbyniadau masnach a derbyniadau eraill.

DERBYNIADAU MASNACH

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymrwyd ar werthiannau grŵp oedd 21 diwrnod (2007 – 32 diwrnod). Gwnaethpwyd lwfans ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o £17,000 (2007 - £5,000) wedi'i seilio ar adolygiad penodol o bob derbyniad masnach. £1,463,000 (2007 - £1,087,000) oedd gwerth y derbyniadau masnach gros. Y cyfnod credyd cyfartalog a gymrwyd ar werthiannau cwmni oedd 20 diwrnod (2007 – 6 diwrnod). Gwnaethpwyd lwfans ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o £15,000 (2007 - £5,000) wedi'i seilio ar adolygiad penodol o bob derbyniad masnach. £822,000 (2007 - £131,000) oedd gwerth y derbyniadau masnach gros.

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cynnal masnach a derbyniadau eraill yn agos at eu gwerth teg.

Mae risg credyd y grŵp i'w briodoli i'w fasnach a'i dderbyniadau eraill yn bennaf. Mae'r symiau a gyflwynir yn y fantolen yn net lwfansau ar gyfer derbyniadau ansicr, a amcangyfrifwyd gan reolwyr y grŵp ar sail profiad blaenorol a'u hasesiad o'r amgylchedd economaidd cyfredol. Ceir dwysâd o ran risg credyd derbyniadau gyda phrif gwsmer y grŵp, S4C.

Ar 31 Mai 2008, roedd gwerth £866,000 (2007 - £572,000) o dderbyniadau masnach o fewn amodau talu safonol y grŵp o 30 diwrnod a gwerth £619,000 (2007 - £66,000) o dderbyniadau masnach o fewn amodau talu safonol y cwmni. Cred y cyfarwyddwyr nad oes angen gwneud unrhyw ddarpariaeth bellach ar gyfer amhariad. Ym malans derbyniadau masnach y grŵp a'r cwmni, cynhwysir dyledwyr y mae eu dyddiad dyledus wedi mynd heibio ar y dyddiad adrodd, ond nad yw'r grŵp wedi gwneud darpariaeth amhariad ar eu cyfer gan na fu newid sylweddol mewn ansawdd credyd a bernir bod y symiau yn adferadwy o hyd.

Mae oedran derbyniadau masnach y mae eu dyddiad dyledus wedi mynd heibio ond na ystyrir bod amhariad yn effeithio arnynt, fel a ganlyn:

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
Llai na thri mis	94	312	60	35
Tri mis i chwe mis	28	34	19	17
Chwe mis i flwyddyn	190	78	98	-
Blwyddyn i ddwy flynedd	268	86	11	8
	580	510	188	60

Mae swm cynnal yr asedau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol, sy'n net o golledion amhariad, yn cynrychioli dinoethiad mwyaf y grŵp i risg credyd.

DERBYNIADAU ERAILL

Nid yw derbyniadau eraill yn cynnwys unrhyw symiau gydag amhariad neu unrhyw symiau y mae'r dyddiad dyledus wedi mynd heibio. Mae derbyniadau eraill y grŵp yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan gyd-fentrau yn bennaf ac mae symiau adferadwy eraill y cwmni yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan gwmnïau grŵp yn bennaf (gweler nodyn 29 am fanylion pellach).

ARIAN A CHYFWERTHOEDD

Mae'r rhain yn cynnwys arian wrth law ac adneuon sy'n cael eu dal ar alw gan fanciau. Mae swm cynnal yr asedau hyn yn agos at eu gwerth teg.

Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol yn gyfyngedig gan bod y gwrthbartïon yn fanciau y mae ganddynt statws credyd uchel, a neilltuwyd gan yr asiantaethau statws credyd rhyngwladol. Ni cheir dwysâd sylweddol o ran risg credyd ar gronfeydd hylifol.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

18. CAEL A RHOI BENTHYCIADAU SY'N DWYN LLOG

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL				
Stoc benthyca anwarantedig	-	125	-	125
Benthyciad pensiwn	-	9	-	9
Cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid	278	232	252	183
Cyfrannau ffafredig	-	55	-	55
	278	421	252	372
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL				
Stoc benthyca anwarantedig	-	125	-	125
Benthyciad pensiwn	-	36	-	36
Cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid	290	111	286	81
	290	272	286	242

Gwelwyd y stoc benthyca anwarantedig yn dwyn llog o 11% y flwyddyn ac fe'i ad-dalwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

	£'000	£'000	£'000	£'000
STOC BENTHYCA ANWARANTEDIG				
Cyn pen blwyddyn	-	125	-	125
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	125	-	125
	-	250	-	250

Ad-dalwyd y benthyciad pensiwn o'r gronfa bensiwn a weinyddir gan y cyfarwyddwyr eu hunain, a oedd yn anwarantedig ac a wnaeth ddwyn llog o 3% uwch ben y gyfradd sylfaenol.

	£'000	£'000	£'000	£'000
BENTHYCIAD PENSIWN				
Cyn pen blwyddyn	-	9	-	9
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	9	-	9
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	-	27	-	27
	-	45	-	45

Mae'r ymrwymiadau hurbrynu a phrydlesi cyllid i'w had-dalu fel a ganlyn:

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
CONTRACTAU HURBRYNU A PHRYDLESI CYLLID				
Cyn pen blwyddyn	278	232	252	183
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	230	87	227	61
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	60	24	59	20
	568	343	538	264

Caiff ymrwymiadau dan gontractau hurbrynu a phrydlesi cyllid eu sicrhau ar yr asedau cysylltiedig. Gweler nodyn 21 am fanylion pellach ynghylch contractau prydlesi cyllid.

Mae'r cyfrannau ffafredig i'w had-dalu fel a ganlyn:

	£'000	£'000	£'000	£'000
CYFRANNAU FFAFREDIG				
Cyn pen blwyddyn	-	55	-	55

19. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL

MASNACH A SYMIAU TALADWY ERAILL

RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 Fel yr ailddatganwyd – gweler nodyn 27 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 Fel yr ailddatganwyd – gweler nodyn 27 £'000
Cyfrifon masnach sy'n daladwy	628	234	478	147
Treth arall a nawdd cymdeithasol	1,176	712	664	499
Credydwyr eraill	47	178	47	101
Croniadau ac incwm gohiriedig	3,043	2,885	1,154	1,534
	4,894	4,009	2,343	2,281
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL				
Credydwyr eraill	68	44	64	44

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

Mae symiau taladwy masnach yn cynnwys symiau sy'n ddyledus at ddibenion masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd cyfartalog ar gyfer pryniannau masnach yw 13 diwrnod (2007 – 11 diwrnod) ar gyfer y grŵp ac 16 diwrnod (2007 – 13 diwrnod) ar gyfer y cwmni. Nid oes unrhyw symiau taladwy masnach y mae'r dyddiad dyledus wedi heibio ar eu cyfer, yn bodoli ar gyfer y grŵp na'r cwmni. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cynnal masnach a symiau taladwy eraill yn agos at eu gwerth teg ar gyfer y grŵp a'r cwmni. Bydd y cyfrifon masnach sy'n daladwy, treth arall a nawdd cymdeithasol yn cael eu setlo yn ystod y flwyddyn i ddod. Caiff rhwymedigaethau ariannol y grŵp a'r cwmni eu cynnal am y gost wedi'u hamorteiddio, ac eithrio'r cyfrannau ffafredig a oedd yn cael eu dal yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac a brisiwyd yn deg trwy gyfrwng elw a cholled.

20. TRETH OHIRIEDIG

Mae'r canlynol yn cyfateb â'r rhwymedigaethau treth ohiriedig mawr a'r asedau a gydnabyddir gan y grŵp a'r cwmni a symudiadau gyda hynny yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol a blaenorol.

GRŴP	Lwfansau cyfalaf cyflymedig £'000	Gwhaniaethau amseru tymor byr £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Mehefin 2006	100	(1)	99
Caffael is-gwmni	24	-	24
Credyd i'r datganiad incwm	(42)	-	(42)
Balans ar 1 Mehefin 2007	82	(1)	81
Tâl i'r datganiad incwm	22	-	22
Ar 31 Mai 2008	104	(1)	103

CWMNI	Lwfansau cyfalaf cyflymedig £'000	Gwhaniaethau amseru tymor byr £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Mehefin 2006	67	(1)	66
Credyd i'r datganiad incwm	(17)	-	(17)
Balans ar 1 Mehefin 2007	50	(1)	49
Tâl i'r datganiad incwm	39	-	39
Ar 31 Mai 2008	89	(1)	88

21. YMRWYMIADAU DAN BRYDLESI CYLLID

	ISAFSWM Y TALIADAU PRYDLES			
	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
Symiau sy'n daladwy dan brydlesi cyllid:				
Cyn pen blwyddyn	318	253	289	200
Yn ystod yr ail flwyddyn i'r bumed flwyddyn	307	111	303	86
Cyfanswm gwerth ymrwymiadau prydlesi	625	364	592	286
Yn llai: taliadau cyllid yn y dyfodol	(57)	(21)	(54)	(22)
Gwerth presennol ymrwymiadau prydlesi	568	343	538	264

Mae'n bolisi gan y grŵp brydlesu eiddo, cyfarpar a pheiriannau penodol dan brydlesi cyllid. Hyd cyfartalog y prydlesi yw tair blynedd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2008, y gyfradd fenthyca effeithiol gyfartalog oedd 8.6% (2007 - 9.5%). Caiff cyfraddau llog eu gosod ar ddyddiad y contract. Mae'r holl brydlesi yn cael eu gwneud ar sail ad-dalu sefydlog ac ni ymrwymwyd i unrhyw drefniadau ar gyfer ad-daliadau rhent amodol. Mae swm cynnal y benthyciadau yn agos at eu gwerth teg.

Uchod, dangosir y taliadau cytundebol ynghylch prydlesi cyllid wedi'u seilio ar y llif arian nas disgowntiwyd a'r dyddiad cynharaf y gellir mynnu bod y grŵp a'r cwmni yn eu talu.

Mae'r holl ymrwymiadau prydles wedi'u nodi mewn punnoedd sterling. Mae gwerth teg ymrwymiadau prydles y grŵp yn agos at eu swm cynnal. Caiff ymrwymiadau'r grŵp dan brydlesi cyllid eu gwarantu gan hawliau'r prydleswr dros yr asedau a brydleswyd.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

22. CYDNABYDDIAETH OHIRIEDIG

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL				
Cydnabyddiaeth ohiriedig	174	864	174	864
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL				
Cydnabyddiaeth ohiriedig	159	306	159	306

	£'000	£'000	£'000	£'000
CYDNABYDDIAETH OHIRIEDIG				
Cyn pen blwyddyn	174	928	174	928
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	159	147	159	147
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	-	159	-	159
	333	1,234	333	1,234

	£'000	£'000	£'000	£'000
SYMUDIAD MEWN CYDNABYDDIAETH OHIRIEDIG				
Ar 1 Mehefin (fel yr adroddwyd)	1,234	496	1,234	496
Addasiad – gweler nodyn 27	(64)	-	(64)	-
Ar 1 Mehefin (fel yr ailddatganwyd)	1,170	496	1,170	496
Caffaeliadau	-	1,302	-	1,302
Taliad	(837)	(564)	(837)	(564)
Ar 31 Mai	333	1,234	333	1,234

23. OFFERYNNAU ARIANNOL

RHEOLI RISG CYFALAF

Mae'r grŵp a'r cwmni yn rheoli ei gyfalaf er mwyn sicrhau y bydd endidau yn y grŵp yn gallu parhau fel busnes gweithredol, gan fanteisio'n llawn ar yr adenillion i fudd-ddeiliaid trwy optimeiddio'r balans dyled ac ecwiti. Caiff strwythur cyfalaf arian a chyfwerthoedd arian a'r ecwiti sy'n briodoladwy i ddeiliaid ecwiti y rhiant, sy'n cynnwys cyfalaf a ddosbarthwyd, cronfeydd wrth gefn ac enillion argadwedig, eu datgelu yn y datganiad newidiadau o ran ecwiti.

POLISÏAU CYFRIFYDDU ARWYDDOCAOL

Caiff manylion y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol a'r dulliau a fabwysiadwyd, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cydnabod, sail y mesur a'r sail a ddefnyddir er mwyn cydnabod incwm a threuliau, ar gyfer pob dosbarth o ased ariannol, rhwymedigaeth ariannol ac offeryn ecwiti, eu datgelu yn nodyn 3 yr offerynnau ariannol.

AMCANION RHEOLI RISG ARIANNOL

Mae'r Bwrdd yn rheoli risgiau ariannol y grŵp a'r cwmni. Gallai'r risgiau hyn gynnwys risg y farchnad (gan gynnwys risg arian breiniol, risg cyfradd llog gwerth teg a risg pris), risg credyd, risg hylifedd a risg cyfradd llog llif arian.

RISG Y FARCHNAD

Nid yw gweithgareddau'r grŵp a'r cwmni yn golygu ei fod yn wynebu'r risgiau ariannol sy'n ymwneud â newidiadau mewn cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian breiniol tramor. Os bydd y risgiau hyn yn codi yn y dyfodol, bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'n briodol ymrwymo i offerynnau ariannol deilliadol er mwyn rheoli ei ddinoethiad i risg arian breiniol tramor a chyfraddau llog.

Gan nad yw'r grŵp a'r cwmni yn agored i ddylanwad gyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian breiniol tramor, ni ddarparwyd dadansoddiad sensitifrwydd.

RHEOLI RISG CREDYD

Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd gwrthbarti yn methu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan arwain at golled ariannol i'r grŵp a'r cwmni. Mae'r grŵp a'r cwmni wedi mabwysiadu polisi o ddelio â gwrthbartïon teilwng o gredyd yn unig, gan sicrhau sicrwydd cyfochrog digonol pan fo hynny'n briodol, fel ffordd o leihau risg colled ariannol oherwydd methiant. Dim ond gydag endidau sy'n sicrhau statws cyfatebol â'r raddfa fuddsoddi ac uwch y bydd y grŵp a'r cwmni yn masnachu gyda nhw. Caiff dinoethiad y grŵp a'r cwmni, a statws credyd ei wrthbartïon, eu monitro yn barhaus.

Mae gan y grŵp a'r cwmni ddwysâd o ran y risg credyd gyda'i brif gwsmer, S4C. Mae'r risg credyd gydag S4C yn gyfyngedig gan bod S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol ac offerynnau ariannol deilliadol yn gyfyngedig gan bod y gwrthbartïon yn fanciau y mae ganddynt statws credyd uchel a neilltuwyd iddynt gan asiantaethau statws credyd rhyngwladol.

RHEOLI RISG HYLIFEDD

Bwrdd y cyfarwyddwyr sy'n meddu ar y cyfrifoldeb pennaf dros reoli risg hylifedd. Mae'r grŵp a'r cwmni yn rheoli risg hylifedd trwy gynnal cronfeydd wrth gefn ariannol digonol, ac chan fonitro llif arian go iawn ac a ragwelir, yn barhaus. Nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau gan fanc ar hyn o bryd.

Mae'r grŵp a'r cwmni yn disgwyl cyflawni ei ymrwymiadau gan ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn ariannol a'i lif arian gweithredol. Nid yw hyn yn risg arwyddocaol ar hyn o bryd.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

Mae'r unig rwymedigaethau sy'n dwyn llog yn ymwneud â'r cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid a nodir yn nodyn 21.

GWERTH TEG OFFERYNNAU ARIANNOL

Pennir gwerth teg asedau ariannol nad ydynt yn rhai deilliadol a rhwymedigaethau ariannol yn unol â modelau prisio a dderbynnir yn gyffredinol, ar sail dadansoddiad llif arian wedi'i ddisgowntio trwy ddefnyddio prisiau o drafodion cyfredol gweladwy yn y farchnad a gosodiadau gan werthwyr ar gyfer offerynnau tebyg. Mae symiau cynnal asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol a gofnodir yn unol â'u cost wedi'u hamorteiddio yn y datganiadau ariannol, yn agos at eu gwerthoedd teg. Nid oes gan y grŵp unrhyw offerynnau ariannol deilliadol ar hyn o bryd.

24. CYFALAF CYFRANNAU WEDI EI ALW

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwmni 2008 £'000	Cwmni 2007 £'000
WEDI'I AWDURDODI				
30,000,000 (2007 - 10,000,000) o gyfrannau cyffredin 1c yr un	300	100	300	100
Dim (2007 - 1,000,000) cyfrannau cyffredin ffafredig 1c yr un	-	10	-	10
	300	110	300	110
WEDI'U GALW, WEDI'U CLUSTNODI AC WEDI'U TALU YN LLAWN				
8,901,231 (2007 – 6,352,532) o gyfrannau cyffredin 1c yr un	89	63	89	63
Dim (2007 - 479,868) 5% cyfrannau cyffredin ffafredig 1c yr un	-	5	-	5
	89	68	89	68

CYFALAF CYFRANNAU CYFFREDIN

Ar 27 Awst 2007, dosbarthwyd 137,097 o gyfrannau cyffredin 1c am arian yn unol ag ymarfer opsiwn am bris ymarferiad o £0.91 fesul cyfran.

Ar 29 Hydref 2007, dosbarthwyd 33,000 o gyfrannau cyffredin am arian yn unol ag ymarfer opsiwn am bris ymarferiad o £0.25 fesul cyfran.

Ar 5 Tachwedd 2007, dosbarthwyd 1,898,734 o gyfrannau cyffredin 1c am arian o £1.58c fesul cyfran wrth restru'r cwmni ar AIM.

CYFRANNAU FFAFREDIG

Ar 5 Tachwedd 2007, ailddosbarthwyd y cyfrannau cyffredin ffafredig 1c fel cyfrannau cyffredin 1c.

25. TALIADAU WEDI'U SEILIO AR GYFRANNAU

Mae gan y cwmni gynllun opsiwn cyfrannau ar gyfer cyflogeion penodol.

Caiff gwerthoedd teg gwasanaethau a geir yn gyfnewid am opsiynau cyfrannau a roddir i gyflogeion, eu mesur trwy gyfeirio at werth teg yr opsiynau cyfrannau a roddwyd. Caiff yr amcangyfrif ynghylch gwerth teg y gwasanaethau a geir ei fesur ar sail model Black Scholes (gyda disgwyliadau ynghylch ymarferiad cynnar yn cael eu cynnwys yn y model).

Roedd manylion yr opsiynau cyfrannau a oedd yn weddill yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2008		2007	
	Nifer yr opsiynau cyfrannau	Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol (c)	Nifer yr opsiynau cyfrannau	Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol (c)
Yn weddill ar ddechrau'r flwyddyn	313,614	35.8	115,000	25
Dyfarnwyd yn ystod y flwyddyn	137,280	124	212,910	41.5
Fforffedwyd yn ystod y flwyddyn	(2,000)	36	(14,296)	34.8
Ymarferwyd yn ystod y flwyddyn	(33,000)	25	-	-
Yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn	415,894	65.7	313,614	35.8
Yn ymarferadwy ar ddiwedd y flwyddyn	113,500	25p	-	-

CYFRANNAU 1c DAN OPSIWN	DYDDIAD DYFARNU	PRIS YMARFERIAD	AMODAU BREINIO
OPSIYNNAU CYFRANNAU EMI			
113,500	30 Mehefin 2005	25c	Breiniwyd
152,317	29 Medi 2006	36c	29 Hydref 2008
137,280	15 Hydref 2007	124c	15 Hydref 2009
OPSIYNAU CYFRANNAU HEB EU CYMERADWYO			
12,797	29 Medi 2006	156c	Breiniwyd

Roedd gan y dewisiadau a oedd yn weddill ar 31 Mai 2008 oes gytundebol gyfartalog gymhwysol o 8.3 o flynyddoedd. Yn 2008, dyfarnwyd dewisiadau ar 15 Hydref 2007 (2007 – 29 Medi 2006). Cyfanred gwerthoedd teg amcangyfrifedig yr opsiynau a ddyfarnwyd ar y dyddiadau hynny yw £40,000 (2007 - £21,000).

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

Roedd y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth asesu gwrth teg yr opsiynau cyfrannau, trwy ddefnyddio model Black Scholes, fel a ganlyn:

	2008	2007
Pris cyfran cyfartalog cymhwysol	124c	41.5c
Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol	124c	41.5c
Ansefydlogrwydd disgwyliedig	25%	25%
Oes ddisgwyliedig	2-4 flynyddoedd	2-4 flynyddoedd
Cyfradd llog heb risg	4.5%	4.5%
Maint disgwyliedig difidend	0%	0%

Mae opsiynau cyfrannau yn mynd yn ddi-rym ddeng mlynedd o'r dyddiad dyfarnu neu pan fydd cyflogeion yn gadael y grŵp. Gwelwyd 2,000 (2007 – 14,296) o opsiynau yn mynd yn ddi-rym yn ystod y flwyddyn ar ôl i gyflogeion adael y grŵp.

Pennwyd ansefydlogrwydd disgwyliedig trwy gyfeirio at ansefydlogrwydd hanesyddol prisiau cyfrannau cystadleuwr cofrestredig. Mae'r oes ddisgwyliedig a ddefnyddiwyd yn y model wedi cael ei addasu, ar sail amcangyfrif gorau y rheolwyr, ar gyfer effeithiau y ffaith na ellir eu trosglwyddo, cyfyngiadau ymarfer, ac ystyriaethau ymddygiadol.

Mae cyfanswm treuliau cydnabyddedig y grwp o £23,000 (2007 - £15,000) yn ymwneud â thrafodion talu wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti yn ystod y flwyddyn.

26. TREFNIADAU PRYDLESI GWEITHREDOL

	2008 £'000	2007 £'000
Taliadau prydles isaf dan brydlesi gweithredol yn cael eu cydnabod fel traul yn ystod y flwyddyn	212	121

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y grŵp ymrwymiadau dros ben ar gyfer taliadau prydles isaf yn y dyfodol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo ar gyfer eiddo swyddfa, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Tir ac adeiladau		
Cyn pen blwyddyn	216	170
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	167	166
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	155	270
	538	606

27. CAFFAELIADAU

Ar 31 Mai 2007, aeth y grŵp ati i gaffael 100% o gyfalaf cyfrannau dosbarthedig Ffilmiau Apollo Cyfyngedig ("Apollo"). Ffilmiau Apollo Cyfyngedig yw rhiant-gwmni Teledu Apollo Cyfyngedig ac mae'n cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Gwnaethpwyd addasiadau i werthoedd teg dros dro asedau a gaffaelwyd yn ystod 2008, fel y nodir isod.

	Gwerth teg dros dro £'000	Addasiad £'000	Gwerth teg terfynol £'000
ASEDAU NET A GAFFAELWYD			
Asedau sefydlog diriaethol	67	(37)	30
Buddsoddiadau	70	-	70
Dyledwyr	628	-	628
Arian yn y banc ac mewn llaw	496	-	496
Credydwyr	(680)	(73)	(753)
	581	(110)	471
Ewyllys da	549	48	597
Perthnasoedd gyda chwsmeriaid	408	-	408
Cytundebau di-gystadlu	12		12
Cyfanswm y gydnabyddiaeth	1,550	(62)	1,488
BODLONWYD GAN			
Arian	450	-	450
Cyfrannau a neilltuwyd	200	-	200
Cydnabyddiaeth ohiriedig	871	(64)	807
Costau	29	2	31
	1,550	(62)	1,488

Mae'r addasiad i asedau sefydlog yn ymwneud ag aliniad cyfraddau dibrisiant gyda rhai'r Grŵp. Mae'r addasiad i gredydwyr yn ymwneud â rhwymedigaethau cyn caffael. Mae addasiad i gostau yn ymwneud â chostau nas darparwyd cyn diwedd y flwyddyn. Yn unol ag IFRS 3 "Cyfuniadau busnes", mae addasiadau ynghylch gwerthoedd teg dros dro a gofnodwyd ar 31 Mai 2007 wedi cael eu hadlewyrchu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2007, aeth y grŵp ati i wneud caffaeliadau pellach. Ni wnaethpwyd unrhyw addasiadau i'r gwerthoedd teg a briodolwyd i'r asedau a gaffaelwyd ynghylch o ran y caffaeliadau hyn, felly nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y tabl uchod.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

28. NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL

	Grŵp 2008 £'000	Grŵp 2007 £'000	Cwni 2008 £'000	Cwni 2007 £'000
ELW O WEITHREDOEDD	1,404	724	47	105
Addasiad ar gyfer:				
Amhariad buddsoddiad mewn asedau nad yw'n gyfredol	-	102	-	102
Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol	65	60	-	4
Dibrisiant eiddo, cyfarpar ac offer	363	368	232	257
Elw ar waredu eiddo, cyfarpar ac offer	(7)	(2)	(7)	(2)
Grantiau gan y llywodraeth	(38)	(16)	(38)	(16)
Canlyniadau cyd-fenter	(48)	(14)	-	-
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	23	15	23	15
Llif arian gweithredol cyn symudiad mewn cyfalaf gweithio	1,762	1,237	257	465
(Cynnydd)/gostyngiad mewn derbyniadau	(1,034)	378	(1,417)	41
Cynnydd mewn symiau taladwy	870	1,251	41	1,246
Gostyngiad/(cynnydd) mewn stocrestr	2	(4)	_	-
Arian a sicrhawyd gan weithredoedd	1,600	2,862	(1,119)	1,752
Trethi incwm a dalwyd	(423)	(409)	(110)	(90)
Llog a dalwyd	(133)	(74)	(124)	(67)
Mewnlif/(echlif) arian net o weithgareddau gweithredol	1,044	2,379	(1,353)	1,595

29. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

GRŴP

Parti rheoli eithaf y grŵp yw Boomerang Plus Ccc.

Mae trafodion rhwng y cwmni a'i is-gwmnïau, sy'n bartïon cysylltiedig y cwmni, wedi cael eu gwaredu wrth gyfuno ac ni chânt eu datgelu yn y nodyn hwn. Datgelir manylion y trafodion rhwng y grŵp a phartïon cysylltiedig eraill isod.

Mae'r derbyniadau eraill yn cynnwys £4,684 (2007 - £9,375) sy'n ddyledus gan Hanner:Hanner Cyfyngedig, £205,804 (2007 - £dim) sy'n ddyledus gan Adnoddau Zoom Cyfyngedig a £233,338 sy'n ddyledus gan Calon/Boom JV Limited sy'n gyd-fentrau 50% Boomerang Plus Ccc.

Nodir tâl y cyfarwyddwyr, sy'n bersonél rheoli allweddol y grŵp, yn nodyn 6.

Roedd gwerthiannau nwyddau i bartïon cysylltiedig yn unol â phrisiau rhestr arferol y grŵp ac ni roddwyd disgowntiau. Gwnaethpwyd pryniannau yn unol â phris y farchnad a ddisgowntiwyd i adlewyrchu nifer y nwyddau a brynwyd a'r perthnasoedd rhwng y partïon. Trosglwyddwyd asedau sefydlog a oedd yn werth £174,760 i Adnoddau Zoom Cyfyngedig yn ystod y flwyddyn yn unol â'u gwerth ar y farchnad agored.

Mae'r symiau sy'n weddill yn anwarantedig a byddant yn cael eu setlo gan ddefnyddio arian parod. Ni roddwyd ac ni chafwyd unrhyw warantau. Ni wnaethpwyd darpariaethau ar gyfer dyledion ansicr o ran y symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig.
Cafodd Boomerang Plus Ccc fenthyciad o £dim (2007 - £45,000) gan gronfa bensiwn y mae H E Davies, D T F Richards a G R Davies, cyfarwyddwyr neu gyfarwyddwyr blaenorol y cwmni, yn ymddiriedolwyr ac yn fudd-ddeiliaid y gronfa. Codwyd llog o £3,207 (2007 - £3,952) ar gyfer y flwyddyn. Ad-dalwyd y benthyciad yn llawn yn ystod y flwyddyn.

	2008		2007	
CWMNI	Gwerthu gwasanaethau £'000	Prynu gwasanaethau £'000	Gwerthu gwasanaethau £'000	Prynu gwasanaethau £'000
Teledu Apollo Cyfyngedig	45	-	-	-
Fflic Cyfyngedig	322	15	271	-
Cynyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	840	-	912	-
Mwnci Cyfyngedig	-	344	-	38
Boom Talent Limited	-	20	-	-
	1,207	379	1,183	38

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD ARIANNOL CYFUNOL

	2008		2007	
	Symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus i bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus i bartïon cysylltiedig £'000
Teledu Apollo Cyfyngedig	30	-	5	-
Cynyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	193	-	89	-
218 Holdings Limited	41	-	41	-
Boom Talent Limited	42	-	29	-
Boom Freesports Limited	43	-	-	-
Hanner:Hanner Cyfyngedig	5	-	9	-
Adnoddau Zoom Cyfyngedig	206	-	-	-
Calon/Boom JV Limited	233	-	-	-
	793	-	173	-

Roedd gwerthiannau nwyddau i bartïon cysylltiedig yn unol â phrisiau rhestr arferol y grŵp ac ni roddwyd disgowntiau. Gwnaethpwyd pryniannau yn unol â phris y farchnad a ddisgowntiwyd i adlewyrchu nifer y nwyddau a brynwyd a'r perthnasoedd rhwng y partïon. Trosglwyddwyd asedau sefydlog a oedd yn werth £174,760 i Adnoddau Zoom Cyfyngedig yn ystod y flwyddyn yn unol â'u gwerth ar y farchnad agored.

Cafodd Boomerang Plus Ccc fenthyciad o £dim (2007 - £45,000) gan gronfa bensiwn y mae H E Davies, D T F Richards a G R Davies, cyfarwyddwyr neu gyfarwyddwyr blaenorol y cwmni, yn ymddiriedolwyr ac yn fudd-ddeiliaid y gronfa. Codwyd llog o £3,207 (2007 - £3,952) ar gyfer y flwyddyn. Ad-dalwyd y benthyciad yn llawn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r symiau sy'n weddill yn anwarantedig a byddant yn cael eu setlo gan ddefnyddio arian parod. Ni roddwyd ac ni chafwyd unrhyw warantau. Ni wnaethpwyd darpariaethau ar gyfer dyledion ansicr o ran y symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig.

CYNGHORWYR

CYNGHORYDD ENWEBEDIG
Altium Capital Limited
30 St James' Square
Llundain
SW1Y 4AL

BROCER
Evolution Securities Limited
100 Wood Street
Llundain
EC2V 7AN

ARCHWILWYR
Deloitte & Touche LLP
Blenheim House
Fitzalan Court
Newport Road
Caerdydd
CF24 0TS

CYFREITHWYR
Osborne Clarke
One London Wall
Llundain
EC2Y 5EB

CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS ARIANNOL
Redleaf Communications
9-13 St Andrew Street
Llundain
EC4A 3AF

COFRESTRYDDION
Capita Registrars
Northern House
Woodsome Park
Fenay Bridge
Huddersfield
HD8 0LA

DYLUNIO AC ARGRAFFU GAN ALLPRINT LTD
printed on FSC certified coated paper